



**Croeso
Cymru**

**Canllaw ar y
Cynllun Gradd Sêr ar gyfer**

**Gwestai â
Gwasanaeth**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**



Cynnwys

Adran	Manylion	Tudalen
1.0	Cyflwyniad Cyffredinol	4
1.1.	Cyflwyniad	
1.1.1	Safonau Cyffredin Ledled Prydain	4
1.1.2	Y Gofynion	4
1.1.3	Eithriadau	4
1.1.4	Sut mae'r system asesu'n gweithio?	4
1.2	Categoriâu/Is-gategoriâu	6
1.2.1	Crynodeb o'r Safon ar gyfer Gwestai ac Is-gategoriâu Gwestai	6
1.2.2	Disgrifiad Cyffredinol	6
1.3	Pennu'r Radd Sêr	7
1.4	Y Prif Ofynion ar gyfer pob Gradd	7
1.4.1	Un Seren – 30-46%	7
1.4.2	Dwy Seren – 47-54%	8
1.4.3	Tair Seren – 55-69%	8
1.4.4	Pedair Seren – 70-84%	8
1.4.5	Pum Seren – 85-100%	9
2.0	Gofynion Manwl	10
2.1	Safonau Cyffredinol	10
2.1.1	Rhwymedigaethau Statudol	10
2.1.2	Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo	11
2.1.3	Cynnal a Chadw	12
2.1.4	Glendid	12
2.1.5	Ansawdd Ffisegol	13
2.1.6	Lletygarwch	13
2.1.7	Gwasanaethau	13
2.1.8	Agor	14
2.1.9	Mynediad i Westeion	15
2.2	Gwasanaethau	15
2.2.1	Ymddangosiad staff	15
2.2.2	Archebu, Prisiau a Biliau	16
2.2.3	Y Dderbynfa: Staff ar gael pan mae Gwesteion yn Cyrraedd ac yn Gadael	17
2.2.4	Cymorth â Bagiau	18
2.2.5	Arall – Gwasanaethau Derbynfa/Concierge/Cadw Tŷ	19
2.3	Pob Pryd Bwyd – Ansawdd y Cyfleusterau Bwyta a Gwybodaeth	20
2.3.1	Darpariaeth ar gyfer Bwyta	20
2.3.2	Perchnogaeth Tai Bwyta	21
2.3.3	Byrddau/Gosodiad y Bwrdd	21
2.3.4	Gweini Prydau: Staff	21

Adran	Manylion	Tudalen
2.4	Brecwast	22
	2.4.1 Darpariaeth	22
	2.4.2 Amseroedd Brecwast	22
	2.4.3 Prisiau	23
	2.4.4 Bwydlen	23
	2.4.5 Ystod o Seigiau	23
	2.4.6 Ansawdd y Bwyd	24
	2.4.7 Math o Wasanaeth	24
2.5	Prydau Eraill	25
	2.5.1 Cinio gyda'r Nos: Oriau Gweini	25
	2.5.2 Ystod o Seigiau	26
	2.5.3 Bwydlen a Phrisiau	26
	2.5.4 Ansawdd y Bwyd	26
	2.5.5 Math o Wasanaeth	27
	2.5.6 Gwin a Gweini Gwin	27
	2.5.7 Gweini Diod Gadarn/Trwyddedau (fel sy'n berthnasol dan y deddfau trwyddedu yng Nghymru)	28
	2.5.8 Gweini Cinio	28
	2.5.9 Lluniaeth Ysgafn, Byrbrydau a The Prynawn	28
	2.5.10 Darparu Gwasanaeth Ystafell	29
	2.5.11 Gwasanaeth Ystafell: Y Gwasanaeth a'r Cyflwyniad	30
	2.5.12 Gwasanaeth Ystafell: Brecwast	30
2.6	Ystafelloedd Gwely	31
	2.6.1 Darpariaeth	31
	2.6.2 Ansawdd Cyffredinol	31
	2.6.3 Cadw Tŷ	32
	2.6.4 Maint ac Ehangder	33
	2.6.5 Cyfres o Ystafelloedd	34
	2.6.6 Maint y Gwelyau: Ansawdd	34
	2.6.7 Mynd at y Gwelyau	35
	2.6.8 Dillad Gwely sy'n Ofynnol	35
	2.6.9 Ansawdd Dillad Gwely	36
	2.6.10 Addurno: Waliau, Nenfwd a Gwaith Paent	36
	2.6.11 Gwresogi a Rheoli Tymheredd	37
	2.6.12 Goleuo	37
	2.6.13 Ffenestri	38
	2.6.14 Gorchuddion Ffenestri	38
	2.6.15 Lloriau	39
	2.6.16 Celfi, Dodrefn Meddal a Ffitiadau	39
	2.6.17 Byrddau	40
	2.6.18 Lle i Gadw Dillad a Bagiau	40
	2.6.19 Cadeiriau	41
	2.6.20 Drychau	41
	2.6.21 Cyfleusterau Gwneud Te/Coffi	42
	2.6.22 Adloniant yn yr Ystafelloedd	42

Adran	Manylion	Tudalen
	2.6.23 Cyfathrebu a Gwasanaethau Busnes	43
	2.6.24 Taliadau Ffôn	44
	2.6.25 Sychwyr gwallt	44
	2.6.26 Gwybodaeth yn yr ystafell	44
	2.6.27 Amrywiol	45
2.7	Ystafelloedd Ymolchi ac Ystafelloedd Cawod En-Suite a Chyfleusterau Preifat	46
	2.7.1 Darpariaeth	46
	2.7.2 Ansawdd Cyffredinol (Yn Berthnasol i Ystafelloedd Ymolchi ac Ystafelloedd Cawod o Bob Math)	46
	2.7.3 Maint Ystafelloedd	47
	2.7.4 Cyflenwad Dŵr	47
	2.7.5 Cyfarpar ar gyfer Cyfleusterau En-Suite a Phreifat	48
	2.7.6 Goleuo, Gwresogi ac Awyru	49
	2.7.7 Tyweli a Phethau Ymolchi	49
2.8	Mannau Cyhoeddus	50
	2.8.1 Ansawdd Cyffredinol: Pob Man Cyhoeddus (Barrau, Lolfeydd, y Dderbynfa, Tai Bwyta ac ati)	50
	2.8.2 Goleuo, Gwresogi ac Awyru	51
	2.8.3 Y Dderbynfa/Cyntedd	51
	2.8.4 Barrau, Lolfeydd, Mannau Eistedd a Thai Bwyta	52
	2.8.5 Mannau Cyhoeddus Eraill gan gynnwys Coridorau a Grisiau	52
	2.8.6 Lifftau	53
	2.8.7 Ffôn Cyhoeddus	53
	2.8.8 Toiledau mewn Mannau Cyhoeddus	54
2.9	Mannau Allanol (fel y bo'n berthnasol)	54
2.10	Rhandai	55
3.0	Cod Ymddygiad	55
4.0	Amodau Cymryd Rhan	56
5.0	Newid Perchnogaeth	56
6.0	Arwyddion	56
7.0	Beth i'w Wneud Os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddir	57

1.0 Cyflwyniad Cyffredinol

1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Safonau Cyffredin Ledled Prydain

Er 2006, mae Visit England, Visit Scotland, Croeso Cymru a'r AA wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd â chefnogaeth y Llywodraeth i weithredu Safon Gyffredin ar gyfer asesu ansawdd llety â gwasanaeth ledled Prydain. Ymunodd Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon â phartneriaid y safon gyffredin yn 2010, ac erbyn hyn mae meini prawf y safon gyffredin wreiddiol ar gyfer Gwestai a Llety Gwesteion wedi cael eu diweddarau.

Bydd Croeso Cymru'n defnyddio'r gofynion newydd hyn ar gyfer safon gyffredin i bennu gradd Sêr eich sefydliad. Bydd eich gradd yr un fath pa un a ydych yn dewis Croeso Cymru neu'r AA i wneud eich asesiad. Wrth gwrs, gallwch ddewis cael eich asesu gan fwy nag un sefydliad, ond bydd pob sefydliad yn rhoi'r un radd sêr a disgrifiad i chi. Fodd bynnag, nid yw gwobrau marchnata ychwanegol am fwyd, cyffordduswydd a gwasanaeth, e.e. gwobr Aur Croeso Cymru, yn rhan o'r cytundeb hwn.

1.1.2 Y Gofynion

Rydym wedi seilio'r gofynion ar gyfer y graddau sêr ar safonau presennol yr holl sefydliadau ynghyd ag ymchwil helaeth i anghenion a disgwyliadau ymwelwyr. Rydym hefyd wedi ymgynghori'n eang â'r diwydiant lletygarwch.

Mae'r adborth a gawsom gan y diwydiant yn dangos cefnogaeth gref i safon ansawdd gyffredin ar gyfer llety â gwasanaeth ym mhob un o'r gwledydd lle mae'r cynlluniau'n cael eu gweithredu. Ein nod ar gyfer y safon ansawdd gyffredin ddiwygiedig hon yw dal i weithio gyda'r diwydiant, ac ymdrechu gyda'n gilydd i godi safonau ansawdd wrth i ddisgwyliadau defnyddwyr newid.

1.1.3 Eithriadau

Gellir caniatáu eithriadau ar gyfer rhai gofynion unigol yn y safonau ansawdd ar yr amod bod y sefydliad yn bodloni neu'n rhagori ar yr holl ofynion a lefelau ansawdd eraill ar gyfer y radd honno. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn seiliedig ar achosion unigol a bydd yn rhaid iddo fod wedi'i gytuno gan Weithgor y Grŵp Adolygu Safonau, sy'n cynrychioli pob un o'r pum sefydliad sy'n gweithredu'r Safonau Cyffredin – yr AA, Visit England, Visit Scotland, Croeso Cymru a Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon. Bydd angen i unrhyw eithriadau ddangos cynnydd cymesur mewn ansawdd mewn meysydd eraill i wneud iawn am y maes lle gofynnir am eithriad.

D.S. Gwesty pris rhesymol – cynllun wedi'i ddylunio ar gyfer gwestai grŵp cenedlaethol yw hwn. Mae meini prawf gwahanol yn berthnasol gan na ddyfernir gradd sêr i'r math hwn o westy.

1.1.4 Sut mae'r system asesu'n gweithio?

Yn fyr, mae tair rhan i'r broses:

Cam 1 – Bydd Cynghorydd Ansawdd Croeso Cymru'n rhoi sgôr i'r busnes cyfan ar sail ansawdd.

Cam 2 – Bydd y Cynghorydd Ansawdd yn sicrhau bod elfennau penodol o'r busnes yn bodloni'r hyn a elwir yn 'Gymwysyddion Adrannol' o ran ansawdd.

Cam 3 – Yn olaf, bydd y Cynghorydd Ansawdd yn sicrhau bod gofynion ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau, sy'n briodol i'r Radd Sêr, yn bresennol ac ar gael.

Cam 1

Mae'r ymweliad yn dechrau ag asesiad ansoddol gwrthrychol gan ein Cynghorydd Ansawdd o bob agwedd ar eich busnes, o gyflwr yr adeilad ei hun, y celfi, y dodrefn meddal ac ati, i'r gwasanaethau a gynigir i'r gwesteion. Yn syml iawn, rhoddir sgôr rifiadol i bob agwedd sy'n cael ei hasesu ac mae'r sgôr honno'n cyfateb i ddisgrifiad o lefel ansawdd. Defnyddir graddfa o 1 i 5, felly os yw rhywbeth o ansawdd Rhagorol, bydd yn cael 5 pwynt; os yw'n cael ei ystyried yn Dderbyniol rhoddir sgôr o 1. Er mwyn osgoi unrhyw ragfarn, mae ein Cyngorwyr Ansawdd yn cael eu hyfforddi ac maent yn dilyn canllawiau penodol. Mae gwerth y pwyntiau'n cynrychioli lefelau esgynnol o ansawdd, fel hyn:

- Ansawdd rhagorol - 5 pwynt
- Ansawdd da iawn - 4 pwynt
- Ansawdd da - 3 pwynt
- Ansawdd eithaf da - 2 bwynt
- Ansawdd derbyniol - 1 pwynt

Pan fydd ffurflen yr adroddiad wedi'i chwblhau a'r sgorau wedi cael eu dyrannu, byddant yn cael eu hadio, a chyfrifir sgôr ganrannol ar gyfer ansawdd y busnes cyfan. Drwy edrych ar yr ystod o ganrannau bandiau sêr, bydd y Cynghorydd Ansawdd yn cael syniad beth allai'r radd Sêr derfynol fod.

Gradd Sêr	Canrannau Mynediad
1 Seren	30 – 46%
2 Seren	47 – 54%
3 Seren	55 – 69%
4 Seren	70 – 84%
5 Seren	85 – 100 %

Fodd bynnag, mae dau gam arall i'w dilyn cyn pennu'r canlyniad terfynol.

Cam 2

Rhaid i'r Cynghorydd Ansawdd wirio cysondeb yr ansawdd yn awr, gan ddefnyddio'r hyn y cyfeiriwn ato fel 'Cymwysyddion Adrannol'. Pwrpas y dull hwn o weithredu yw sicrhau nad yw un agwedd ar y busnes wedi bod yn cael marciau uchel, gan yrru'r marc canran terfynol i'r lefel gradd Sêr nesaf a rhoi camagraff i'r gwestai ynglŷn â'r ansawdd cyffredinol. Mae gwaith ymchwil wedi dangos i ni bod ansawdd rhai agweddau ar westy'n arbennig o bwysig i westeion. Os nad yw'r agweddau hyn yn bodloni disgwyliadau gwesteion ar unrhyw radd Sêr benodol, maent yn debygol o fod yn gwsmeriaid siomedig. Mae'n bwysig iawn felly bod ansawdd y meysydd hollbwysig hyn yn cyfateb i radd derfynol y busnes.

Y meysydd allweddol yw Glendid, Lletygarwch, Gwasanaeth, Ystafelloedd Gwely, Ystafelloedd Ymolchi a Bwyd a defnyddir sgorau a gafwyd yn y meysydd hyn i gadarnhau'r radd Sêr derfynol. Mae gan bob un o'r meysydd cymhwyso isafswm sgôr

ganrannol ar bob lefel, ond os na chyrhaeddir y sgôr isaf ar gyfer 1 Seren ni roddir unrhyw radd Sêr.

Nodir isod isafswm y sgôr ganrannol ar bob lefel.

Gradd Sêr	1 Seren	2 Seren	3 Seren	4 Seren	5 Seren
Glendid	40	50	65	75	90
Lletygarwch	30	47	55	70	85
Gwasanaeth	30	47	55	70	85
Yst. Gwely	30	47	55	70	85
Yst. Ymolchi	30	47	55	70	85
Bwyd	30	47	55	70	85

Cam 3

Yn olaf, rhaid sicrhau bod unrhyw gyfleusterau/gwasanaethau ychwanegol sy'n ofynnol ar bob lefel benodol yn bresennol ac ar gael, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n ofynnol ar bob lefel Sêr flaenorol. Yn ôl gwaith ymchwil, po uchaf yw'r radd, y mwyaf o gyfleusterau a gwasanaethau y mae'r defnyddiwr yn eu disgwyl. Gall y Cynghorydd Ansawdd ddweud wrthy ch yn awr pa radd Sêr y byddwch yn ei chael!

1.2 Categoriâu/Is-gategoriâu

1.2.1 Crynodeb o'r Safon ar gyfer Gwestai ac Is-gategoriâu Gwestai

Yn gyffredinol, ar ôl asesu ei ansawdd, rhennir llety â gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig i dri chategori:

- Gwestai: llety ffurfiol â gwasanaeth llawn.
- Llety Gwesteion (e.e. gwely a brecwast, tafarn ac ati): llety anffurfiol â gwasanaeth cyfyngedig.
- Gwestai Pris Rhesymol (e.e. gwesty ochr ffordd sy'n codi pris rhesymol): llety unffurf â gwasanaeth cyfyngedig.

Bydd unrhyw sefydliad sy'n gweithredu â'r gair 'gwesty' fel rhan o enw'r busnes yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r gofynion ar gyfer gwestai sydd i'w gweld yn y llyfryn hwn.

1.2.2 Disgrifiad Cyffredinol

Is-gategori	Disgrifiad Cyffredinol
Gwesty	Llety â gwasanaeth yn darparu gwasanaethau gwesty ag o leiaf 5 ystafell wely.
Gwesty Gwledig	Gwesty â digon o dir neu erddi, mewn lleoliad gwledig neu led-wledig â phwyslais ar lonyddwch a thawelwch.
Gwesty Bach	Gwesty llai â dim mwy nag 20 ystafell wely. Yn debygol o fod yn cael ei redeg gan y perchennog ei hun. Efallai na fydd yn darparu'r holl wasanaethau a ddisgwylir ar y radd sêr.

Is-gategori	Disgrifiad Cyffredinol
Gwesty Trefol (Gradd sêr 3 – 5)	<p>Priodoleddau canol tref/dinas o safon uchel, ag arddull unigol a gwahanol, a dim mwy na 50 o ystafelloedd gwely. Cymhareb staff: gwestai uchel.</p> <p>Efallai nad oes llawer o fannau cyhoeddus. Efallai na weinir cinio gyda'r nos, ond bydd gwasanaeth ystafell ar gael yn lle hynny. Lle nad oes ystafell fwyta, mae brecwast gwasanaeth ystafell yn dderbyniol.</p>
Gwesty Metro	Gwesty tref/dinas yn darparu gwasanaethau gwesty llawn ac eithrio cinio gyda'r nos. O fewn pellter cerdded rhwydd o nifer o wahanol leoedd bwyta.

1.3 Pennu'r Radd Sêr

Bydd angen i westy fodloni tair elfen er mwyn cyrraedd gradd sêr arbennig:

- Rhaid bodloni'r holl ofynion perthnasol.
- Rhaid i'r sgôr ganrannol derfynol ar gyfer ansawdd gyrraedd y band priodol (gweler y bandiau ansawdd ar dudalen 5).
- Y safon ansawdd berthnasol yn y chwe maes allweddol fel y nodir isod.
- Mae naw prif faes asesu. Y chwe maes mwyaf allweddol yw:
 - Glendid
 - Ystafelloedd Gwely
 - Ystafelloedd Ymolchi
 - Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd
 - Ansawdd Bwyd
 - Lletygarwch a Chyfeillgarwch

Rhaid bodloni gofynion y radd sêr ym mhob un o'r chwe maes hyn er mwyn cael gradd sêr arbennig. Y tri maes arall yw: y tu allan, manau cyhoeddus, ystafell fwyta/ tai bwyta. Os darperir cyfleusterau ychwanegol, e.e. sba, bydd y rhain hefyd yn cael eu hasesu.

1.4 Y Prif Ofynion ar gyfer pob Gradd

1.4.1 Un Seren – 30-46%

- O leiaf bum ystafell wely i'w gosod.
- 100% o'r ystafelloedd gwely â chyfleusterau en-suite neu breifat.
- Gwesteion preswyl, ar ôl cofrestru, yn cael mynediad i'r gwesty ar unrhyw adeg. Y perchennog a/neu staff ar y safle drwy'r dydd ac, fel gofyniad sylfaenol, ar gael ar alwad i westeion preswyl yn y nos.
- Ystafell fwyta/tŷ bwyta neu le bwyta tebyg yn gweini brecwast wedi'i goginio neu frecwast Ffrengig saith niwrnod yr wythnos.
- Ystafell fwyta/tŷ bwyta neu le bwyta tebyg yn gweini prydau min nos o leiaf bum niwrnod yr wythnos (ond gall gwestai nad ydynt yn cynnig cinio gyda'r nos, ac sydd wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded rhwydd o ddewis o leoedd i fwyta cinio gyda'r nos, hefyd gael eu graddio dan y cynllun gwestai fel gwesty, ar yr amod bod hyn yn

cael ei egluro wrth bob darpar westai ym mhob deunydd marchnata a bod yr holl ofynion eraill ar gyfer gwestai'n cael eu bodloni).

- Bar neu fan eistedd â Thrwydded Wirod.
- Y gwesty fel arfer ar agor saith niwrnod yr wythnos yn ystod ei dymor gweithredu ac yn darparu gwasanaeth a chyfleusterau ar y lefel sy'n briodol i'w radd sêr bob diwrnod y mae'n agored.
- Y perchennog a/neu staff ar gael yn ystod y dydd a gyda'r nos i dderbyn gwesteion a darparu gwybodaeth/gwasanaethau fel diodydd poeth a lluniaeth ysgafn.
- Derbynfa benodol.
- Bodloni'r holl rwymedigaethau statudol presennol a darparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

1.4.2 Dwy Seren – 47-54%

(Yn ogystal â'r gofynion ar gyfer Un Seren)

- Dylai pob maes gweithredu fodloni'r lefel ansawdd Dwy Seren ar gyfer glendid, cynnal a chadw a lletygarwch, ac ar gyfer ansawdd cyfleusterau ffisegol a darparu gwasanaethau.

1.4.3 Tair Seren – 55-69%

(Yn ogystal â'r gofynion ar gyfer Dwy Seren)

- Dylai pob maes gweithredu fodloni'r lefel ansawdd Tair Seren ar gyfer glendid, cynnal a chadw a lletygarwch, ac ar gyfer ansawdd cyfleusterau ffisegol a darparu gwasanaethau.
- Ar ôl iddynt gofrestru, bydd preswylwyr yn cael dod i mewn unrhyw bryd yn ystod y dydd a gyda'r nos (e.e. o 7am tan 11pm) heb ddefnyddio allwedd.
- Mynediad ar gael y tu allan i'r amseroedd hyn.
- Cinio gyda'r nos yn cael ei weini o leiaf chwe min nos yr wythnos â bar byrbrydau neu gyfleuster cyfatebol ar gael ar y seithfed noson. Os nad oes cinio gyda'r nos yn cael ei hysbysebu'n glir mewn unrhyw fath o ddeunydd hysbysebu/marchnata, yna gellir ystyried disgrifiad gwesty.
- Gwasanaeth ystafell fel isafswm yn cynnig diodydd poeth ac oer a byrbrydau ysgafn (e.e. brechdanau) yn ystod y dydd a gyda'r nos. Y dewis o ddarparu ar gais yn unig, heb fod angen bwydlen lawn sy'n cael ei hyrwyddo mewn ystafell wely. Dylid hysbysu gwesteion bod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu drwy roi gwybodaeth yn yr ystafell a dylent fod yn ymwybodol o'r prisiau cyn archebu.
- Ystafell ymolchi en-suite i bob ystafell wely.
- Angen system ffôn fewnol neu ddeialu uniongyrchol (yr isafswm yw'r gallu i ffonio o ystafell wely i'r dderbynfa ac fel arall).
- Wi-Fi ar gael mewn manau cyhoeddus.

1.4.4 Pedair Seren – 70-84%

(Yn ogystal â'r gofynion ar gyfer Tair Seren)

- Disgwylir lefelau gwasanaeth o ansawdd uwch ym mhob adran ac, yn gyffredinol, lefelau staffio uwch, yn ogystal ag ymdriniaeth o ddifrif a phwyslais clir ar gynnig bwyd a diod.

- Dylai pob maes gweithredu fodloni'r lefel ansawdd Pedair Seren ar gyfer glendid, cynnal a chadw a lletygarwch, ac ar gyfer ansawdd cyfleusterau ffisegol a darparu gwasanaethau.
- Ar ôl cofrestru, dylai preswylwyr gael mynediad 24 awr y diwrnod, yn cael ei hwyluso gan staff ar ddyletswydd.
- Gwasanaeth ystafell 24 awr y diwrnod, yn cynnwys brecwast wedi'i goginio a chinio gyda'r nos llawn yn ystod oriau agor y tŷ bwyta.
- Mwy o wasanaethau'n cael eu cynnig, e.e. te prynhawn, cymorth â bagiau, prydau bwyd amser cinio, gwasanaeth bwrdd ar gais amser brecwast.
- O leiaf un tŷ bwyta, ar agor i breswylwyr a rhai nad ydynt yn aros, ar gyfer brecwast a chinio gyda'r nos saith niwrnod yr wythnos. Mae'n ofynnol i westai heb dai bwyta, sydd wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded rhwydd o nifer o wahanol leoedd bwyta, weini fel isafswm byrbrydau/lluniaeth ysgafn mewn manau cyhoeddus/ystafelloedd gwely, o leiaf yn ystod yr oriau craidd, sef rhwng 7am ac 11pm.
- Pob ystafell wely ag ystafell ymolchi en-suite a phob un â thoiled a chawod sy'n cael ei rheoli â thermostat.
- Wi-Fi neu gysylltiad rhyngrwyd yn cael ei ddarparu mewn ystafelloedd gwely.

1.4.5 Pum Seren – 85-100%

(Yn ogystal â'r gofynion ar gyfer Pedair Seren)

- Lefelau staffio rhagorol â thimau strwythuredig a phwrpasol a rheolwyr â gwybodaeth drylwyr.
- Lefelau eithriadol o wasanaeth rhagweithiol a gofal cwsmeriaid.
- Dylai pob maes gweithredu fodloni'r lefel ansawdd Pum Seren ar gyfer glendid, cynnal a chadw a lletygarwch, ac ar gyfer ansawdd cyfleusterau ffisegol a darparu gwasanaethau.
- Gwesty ar agor saith niwrnod yr wythnos drwy'r flwyddyn.
- Cynnig mwy o wasanaethau e.e. gwasanaeth parcio car, hebrwng i ystafelloedd gwely, gwasanaeth bwrdd rhagweithiol mewn barrau a lolfeydd ac amser brecwast, gwasanaeth 'concierge', derbynfa 24 awr y diwrnod, gwasanaeth ystafell 24 awr y diwrnod, te prynhawn llawn.
- O leiaf un tŷ bwyta, ar agor i breswylwyr a phobl eraill ar gyfer pob pryd saith niwrnod yr wythnos.
- O leiaf 80% o'r ystafelloedd gwely ag ystafell ymolchi en-suite â thoiled, bath a chawod a reolir â thermostat. Gallai 20% fod â chawod yn unig.
- Dewis o amgylcheddau mewn manau cyhoeddus o faint perthnasol a digonol i ddarparu digon o ofod personol.
- Cyfleusterau ychwanegol e.e. lle bwyta arall, cyfleusterau hamdden, canolfan fusnes, sba, ac ati.
- O leiaf un gyfres barhaol o ystafelloedd moethus ar gael (yn cynnwys tair ystafell ar wahân – ystafell wely, lolfaf ac ystafell ymolchi).

2.0 Gofynion Manwl

2.1 Safonau Cyffredinol

2.1.1 Rhwymedigaethau Statudol

- **Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus:** er nad yw'n un o'r gofynion statudol, mae'n ofynnol er mwyn cymryd rhan yn y cynllun hwn. Efallai y gofynnir i berchnogion ddarparu tystiolaeth bod ganddynt yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a bod y gofynion isod yn cael eu cyflawni.

Cydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol gan gynnwys:

- **Asesiad Risgiau Tân:** cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.
- **Diogelwch/Hylendid Bwyd:** cofrestru â'r adran Iechyd yr Amgylchedd leol.
- **Cofrestr Gwesteion:** darparu cofrestr o'r holl westeion; cofnodi rhif pasbort pob gwestai tramor.
- **Iechyd a Diogelwch:** gweithredu'n ddiogel gan roi ystyriaeth briodol i'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a dangos tystiolaeth bod ystyriaeth wedi'i rhoi i ddiogelwch gwesteion ac i ddiogelwch eiddo gwesteion; darparu gwybodaeth glir ynglŷn â sut i gysylltu â'r perchennog/rheolwr os bydd argyfwng. Darparu cyfarwyddiadau amlieithog neu ddiagram ar gyfer trefniadau gadael yr adeilad os bydd tân.
- **Cynllunio:** cydymffurfio â'r holl reoliadau cynllunio lleol.
- **Trwyddedu:** cydymffurfio â'r holl reoliadau trwyddedu lleol.
- **Deddf Perchnogion Gwestai:** cydymffurfio â'r Ddeddf hon.
- **Deddf Diogelu Data:** cydymffurfio â'r Ddeddf hon.
- **Prisiau a Thalu:** egluro wrth y gwesteion beth yn union sy'n cael ei gynnwys yn yr holl brisiau a ddyfynnir ar gyfer llety gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau ychwanegol eraill; cadw at y prisiau a ddyfynnir ar yr adeg y gwneir yr archeb a pheidio â chodi mwy.
- **Polisi Canslo:** rhoi gwybodaeth glir am y polisi canslo i'r gwesteion pan fyddant yn archebu lle h.y. dros y ffôn, drwy ffacs neu drwy e-bost.
- **Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008:** cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn drwy roi disgrifiad cywir o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn unrhyw hysbyseb, taflen, neu ddeunydd arall, boed wedi'i argraffu neu'n electronig.
- Hysbysu ymwelwyr pan maent yn archebu lle, ac ar ôl hynny, am unrhyw newid, os yw'r llety'n cael ei gynnig mewn rhandy ar wahân neu mewn adeilad tebyg arall, a nodi lleoliad llety o'r fath ac unrhyw newidiadau o ran moethusrwydd a/neu amwynderau o gymharu â llety yn y prif eiddo.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010 (yn disodli Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995):** Cydymffurfio â'r Ddeddf hon. Croesawu pob gwestai yn gwrtais a heb wahaniaethu ar sail rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, hil, crefydd neu gred. Gwneud addasiadau 'rhesymol' i wella gwasanaeth a gwsmeriaid anabl. Llundio Datganiad Hygyrchedd – disgrifiad o gyfleusterau a gwasanaethau a gynigir, yng nghyd-destun mynediad yn fwyaf penodol, er mwyn rhoi gwybodaeth i bobl sydd ag anghenion mynediad.

- Darparu llety glân, hylan, diogel, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda i'r gwsteion bob amser.

D.S. Mae'n annhebygol y bydd sefydliad sy'n cynnig llety i breswylwyr sy'n derbyn nawdd gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol neu sy'n gweithredu fel hostel sy'n cynnig lloches i bobl ddigartref yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun.

2.1.2 Diogelwch Personol a Diogelwch Eiddo

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y perchennog a/neu'r staff i fod ar y safle neu ar alwad i westeion preswyl 24 awr y diwrnod. • Cyfarwyddiadau printiedig, yn cael eu darparu yn yr ystafelloedd gwely, yn nodi sut mae galw am gymorth mewn argyfwng yn y nos. Os nad yw'r perchennog yn byw yn y gwesty, disgwylir y bydd aelod o'r tîm rheoli neu aelod o'r staff yn cysgu ar y safle ac y bydd manylion ar gyfer cysylltu ag ef neu hi yn y nos yn cael eu harddangos yn glir ym mhob ystafell wely. • Lefel uchel o ddiogelwch personol a diogelwch eiddo cyffredinol, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â gadael yr adeilad os bydd argyfwng, i'w harddangos ym mhob ystafell wely. Gwybodaeth ynglŷn â'r trefniadau i'w dilyn mewn argyfwng i'w harddangos yn amlieithog neu drwy gyfrwng symbolau/diagramau mewn man amlwg ym mhob ystafell wely. • Camau digonol yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch gwsteion a'u heiddo.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y perchennog a/neu staff i fod ar ddyletswydd rhwng 7am ac 11pm, ac ar y safle 24 awr y diwrnod.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y perchennog a/neu staff i fod ar ddyletswydd 24 awr y diwrnod.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Pedair Seren

Hygyrchedd	Sicrhau manylion y strategaeth ar gyfer gadael yr adeilad mewn tân a'r trefniadau ar gyfer mynd allan mewn argyfwng i bobl anabl. Cofio ei bod yn bosibl na fydd gwsteion sydd â nam ar eu clyw yn clywed rhywun yn curo ar y drws. Cofnodi lleoliad ystafell ac unrhyw ofynion penodol a'u trosglwyddo i'r staff ar adeg newid shiftt.
-------------------	---

2.1.3 Cynnal a Chadw

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladau, eu gosodiadau, dodrefn meddal, ffitiadau ac addurniadau allanol a mewnol yn cael eu cadw mewn cyflwr da, glân ac addas i'r diben a fwriadwyd. • Yr holl gyfarpar trydan a nwy yn gweithio'n iawn ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch gwesteion. • Trefniadau monitro yn eu lle er mwyn rhoi gwybod am eitemau sydd wedi torri neu sy'n ddiffygiol yn ystafelloedd y gwesteion.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladau, eu gosodiadau, dodrefn meddal, ffitiadau ac addurniadau allanol a mewnol yn cael eu cadw mewn cyflwr gwell.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Adeiladau, eu gosodiadau, dodrefn meddal, ffitiadau ac addurniadau allanol a mewnol yn cael eu cadw mewn cyflwr rhagorol, fel pin mewn papur.

2.1.4 Glendid

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gan fod glendid y gwesty o'r pwys mwyaf i'r defnyddiwr, ar bob gradd sêr, mae safonau glendid cyson yn hanfodol ym mhob gwesty. Dylid rhoi sylw penodol i ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau yn enwedig eitemau y mae gwesteion yn dod i gysylltiad uniongyrchol â hwy, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Dillad gwely, cynfasau a thyweli. • Bath, cawodydd, basnau ymolchi a thoiledau. • Lloriau a chadeiriau. • Llestri, cyllyll a ffyr a gwydrau. • Pob ystafell ymolchi ac ystafell gawod yn cael ei glanhau'n ddyddiol ac yn cael ei harchwilio i sicrhau safonau glendid priodol. • Ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd cawod yn lân ac yn aroglï'n braf. Sylw penodol yn cael ei roi i doiledau, tyllau plygiau, llenni cawodydd, drychau a ffaniau echdynnu.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Safonau cadw tŷ eithriadol o uchel.

Cynaliadwyedd	Ystyried defnyddio cynnyrch glanhau bach eu heffaith nad ydynt yn cynnwys clorin, fel cadachau microffibr sy'n golygu nad oes angen defnyddio cymaint o hylif glanhau.
----------------------	--

2.1.5 Ansawdd Ffisegol

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwestai yn darparu llety derbyniol o ran ansawdd a moethusrwydd.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwestai yn darparu llety eithaf da o ran ansawdd a moethusrwydd.
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwestai yn darparu llety o ansawdd da, sy'n gyfforddus ac sy'n cynnig mwy o le.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwestai yn gosod safonau uchel i'r diwydiant lletygarwch. • Pob agwedd ar y gwesty yn cynnig llety da iawn, o ran ansawdd, gofod a moethusrwydd.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwestai'n gosod y safonau rhyngwladol uchaf i'r diwydiant lletygarwch. • Pob agwedd ar y gwesty'n cynnig llety rhagorol o ran ansawdd, gofod a moethusrwydd, ac yn darparu safonau cyffredinol moethus.

2.1.6 Lletygarwch

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gwesteion yn cael eu cyfarch a'u cydnabod mewn modd cyfeillgar, effeithlon a chwrtais drwy gydol eu harhosiad.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Rhyngweithio rhagweithiol a rhagweld anghenion gwesteion.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lletygarwch a gofal cwsmeriaid rhagorol yn cynnig ymdriniaeth bersonol i bob gwestai unigol.

Hygyrchedd	<p>Sicrhau bod staff yn gofyn a oes gan y gwestai unrhyw anghenion mynediad.</p> <p>Croesawu cŵn cymorth (dyletswydd gyfreithiol). Mae llawer o bobl anabl yn dibynnu ar gŵn cymorth i gael annibyniaeth. Gweld y ci fel rhan o'r unigolyn.</p>
-------------------	---

2.1.7 Gwasanaethau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ystod gymharol syml o wasanaethau'n cael eu cynnig – yn aml yn cael eu darparu gan y perchennog a'i deulu/staff. • Ymdrin â phob ymholiad, cais ac archeb, gohebiaeth a chŵyn gan ymwelwyr yn gyflym ac yn gwrtais. • Gwasanaeth a sgiliau effeithlonrwydd o safon gymwys.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth da i westeion â lefelau staffio priodol i ddarparu gwasanaeth cyflym ac effeithlon heb amharu ar feysydd gwasanaeth eraill ar unrhyw adeg. Sgiliau cymdeithasol da ac arwyddion bod anghenion gwesteion unigol yn cael eu rhagweld wrth ymdrin â phob gwestai. • Y staff i gyd yn dangos agwedd gadarnhaol a pharodrwydd i helpu. • Gwasanaeth, effeithlonrwydd a sgiliau technegol o safon dda.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth da iawn i westeion, yn rhoi'r argraff i westeion eu bod yn cael gofal da gan staff proffesiynol a gofalus, sydd wedi cael hyfforddiant da. • Sgiliau cymdeithasol da iawn a'r gallu i ragweld anghenion gwesteion unigol yn amlwg wrth ymdrin â phob gwestai. • Gwasanaeth, effeithlonrwydd a sgiliau technegol o safon dda iawn a heb fod yn amharu ar feysydd gwasanaeth eraill ar unrhyw adeg.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth anymwithiol o safon arbennig i westeion, yn rhoi'r argraff i westeion eu bod yn cael gofal da iawn gan staff proffesiynol, rhagweithiol, sydd wedi cael hyfforddiant da ac sy'n cael eu rheoli'n dda. • Sgiliau cymdeithasol rhagorol a'r gallu i ragweld anghenion gwesteion unigol yn amlwg wrth ymdrin â phob gwestai. • Gwasanaeth ac effeithlonrwydd o safon ragorol heb amharu ar feysydd gwasanaeth eraill ar unrhyw adeg. Yn cael eu darparu gan dîm strwythuredig o staff â hierarchaeth rheoli a goruchwyllo. • Rhai staff amlieithog mewn gwestai â chwsmeriaid rhyngwladol.

Hygyrchedd	<p>Mae hyfforddiant penodol ar gael i staff ynglŷn â sut i groesawu gwesteion o bob math, e.e. Welcome All a WorldHost Customers with Disabilities.</p> <p>Ystyried dysgu cyfathrebu drwy Iaith Arwyddion syml (BSL).</p>
-------------------	---

Cynaliadwyedd	<p>Cynnwys dewisiadau cludiant cyhoeddus mewn deunydd hyrwyddo a gwybodaeth archebu.</p> <p>Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu cyfarwyddo'n llawn a'u diweddarau ynglŷn â pholisi twristiaeth gynaliadwy gwesty, yn enwedig staff y dderbynfa, staff concierge a staff yr ystafell fwyta.</p>
----------------------	---

2.1.8 Agor

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwesty ar agor saith niwrnod yr wythnos fel arfer yn ystod ei dymor gweithredu, ac yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau o safon gyson, bob diwrnod y mae'n agored, sy'n briodol i'w radd sêr.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ar agor saith niwrnod yr wythnos drwy'r flwyddyn, ac yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau o safon gyson.
------------------	---

2.1.9 Mynediad i Westeion

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwesty fel arfer ar agor saith niwrnod yr wythnos yn ystod ei dymor gweithredu, ac yn darparu gwasanaethau a chyfleusterau o safon gyson, bob diwrnod y mae'n agored, sy'n briodol i'w radd sêr.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ar ôl cofrestru, rhaid i breswylwyr gael mynediad bob amser yn ystod y dydd a gyda'r nos, heb fod angen defnyddio allwedd. • Mae'r arferion gorau'n awgrymu rhwng 7am ac 11pm. • Rhaid cael mynediad y tu allan i'r oriau hyn, drwy ddefnyddio allwedd neu god diogelwch efallai.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mynediad 24 awr y diwrnod, yn cael ei hwyluso gan staff ar ddyletswydd.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cyn ac ar ôl cofrestru, dylai gwesteion allu cael mynediad heb orfod canu cloch. Mae cloch yn dderbyniol yn y nos.

2.2 Gwasanaethau

2.2.1 Ymddangosiad Staff

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Staff wedi eu gwisgo'n drwsiadus ac yn daclus. • Dillad y staff yn lân ac yn dwt ac wedi eu smwddio'n dda. • Rhoddir sylw penodol i lendid personol. • Efallai y bydd arddull y gwesty'n pennu sut y bydd staff yn gwisgo – o wisg swyddogol ffurfiol i wisgoedd anffurfiol a chyfforddus.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Staff wedi eu gwisgo'n smart. • Staff wedi eu gwisgo mewn ffordd sy'n galluogi gwesteion i wahaniaethu'n rhwydd rhwng staff a gwesteion.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Staff yn hynod drwsiadus, dim blewyn o'i le, a phawb yn gwisgo yr un fath.

2.2.2 Archebu, Prisiau a Biliau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<p>Dylid cael gwasanaeth archebu effeithlon a hawdd ei ddefnyddio sy'n cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dweud wrth ddarpar ymwelwyr beth yn union sy'n cael ei gynnwys yn y prisiau sy'n cael eu dyfynnu ar gyfer llety, prydau a lluniaeth, gan gynnwys taliadau gwasanaeth, trethi a thaliadau ychwanegol eraill. • Darparu gwybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i arhosiad y gwesteion, e.e. polisi smygu, gwaith adnewyddu sy'n cael ei wneud, digwyddiadau sy'n cael eu cynllunio ac ati. Lle bo polisi'r tŷ'n nodi bod angen archebu rhai cyfleusterau ymlaen llaw, e.e. triniaethau sba, cinio gyda'r nos ac ati, dylid cyfeirio at y rhain ar yr adeg archebu hefyd. • Rhybudd ymlaen llaw os yw'r tŷ bwyta'n mynd i gael ei gau neu os yw'n debygol o fod yn llawn. • Manylion llawn am bolisi canslo'r gwesty. Yn fwyaf arbennig, gwybodaeth am godi tâl ar gardiau credyd os bydd angen canslo neu newid archeb. • Gwybodaeth am flaendaliadau, os oes angen, gan gynnwys manylion ynglŷn â sut y cymerir y blaendal ac a oes modd cael ad-daliad os bydd archeb yn cael ei chanslo. • Eglurhad clir o daliadau am wasanaethau ychwanegol neu gyfleusterau sydd ar gael, gan gynnwys telerau canslo. • Gwybodaeth am unrhyw fathau annerbyniol o dâl, e.e. cardiau credyd, sieciau teithwyr ac ati. • Gwybodaeth a manylion llawn am unrhyw ffioedd a godir am dderbyn cardiau credyd. • Gellir cadarnhau archebion yn ysgrifenedig drwy e-bost/llythyr, yn llafar dros y ffôn neu drwy neges testun. <p>Dylai'r cyfathrebu â darpar westeion, boed yn llafar neu'n ysgrifenedig, fod yn gyflym, yn effeithlon, yn broffesiynol ac yn ddefnyddiol. Mae argraff gyntaf dda yn hollbwysig ar bob lefel. O ganlyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni ddylid codi mwy na'r pris y cytunwyd arno ar yr adeg archebu. • Rhaid i bob pris y cytunwyd arno gynnwys taliadau gwasanaeth, trethi a thaliadau ychwanegol eraill lle bo'n berthnasol. • Dylid ymdrechgu i hysbysu gwesteion ymlaen llaw ynglŷn â lleoliad y gwesty ac unrhyw gyfyngiadau parcio ceir. • Hysbysu ymwelwyr pan fyddant yn archebu, ac yn dilyn hynny os bydd unrhyw newid, os yw'r llety a gynigir mewn rhandy ar wahân neu os oes mynedfa allanol ar wahân iddo. • Oni nodwyd yn ysgrifenedig ymlaen llaw, rhaid cadarnhau'r pris o leiaf ar gerdyn allwedd neu rywbeth tebyg. • Dylai darpar westeion deimlo'n hyderus bod eu harcheb wedi cael ei chofnodi'n gywir. Fel isafswm, dylid cofnodi enw, cyfeiriad a/neu rif ffôn ar yr adeg archebu. • Ymdrin â phob archeb mewn modd cyfeillgar a chwrtais, hyd yn oed pan nad oes adran benodol ar gyfer archebion. • Darparu manylion printiedig neu wedi eu hysgrifennu'n glir ynglŷn â'r taliad sy'n ddyledus a rhoi derbynneb ar gais i bob gwestai.

	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno cyfrifon er mwyn sicrhau bod manylion clir am bob pryniant. • Dylid rhoi sylw penodol i gywirdeb. • Dylid nodi elfen TAW y cyfrif yn glir (lle bo'n berthnasol).
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y gallu i wneud archeb gyflym ac effeithiol yn ystod y dydd a gyda'r nos. • Dylai gwesteion allu rhoi'r holl wasanaethau ar un prif gyfrif, a thalu wrth ymadael. • Cyfrifon gwesteion i'w diweddarau'n rheolaidd er mwyn lleihau oedi wrth ymadael. • Y gwesty'n rhoi cadarnhad drwy e-bost/ffacs/neges testun neu lythyr ar gais (nid gan safle archebu trydydd parti yn unig).
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y gallu i wneud archeb gyflym ac effeithiol yn ystod y dydd a hyd at 11pm. • Y gwesty'n rhoi cadarnhad drwy e-bost/ffacs/neges testun neu lythyr (nid gan safle archebu trydydd parti yn unig).
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y gallu i wneud archeb gyflym ac effeithiol 24 awr y diwrnod. Pob archeb yn cael ei chadarnhau drwy lythyr, ffacs, e-bost neu neges testun. • Y cyfrif wedi'i egluro'n glir ac yn cael ei gyflwyno'n dda, mewn amlen neu ffolder efallai.

Hygyrchedd	<p>Cynnig dewis o ffyrdd i'ch gwesteion gysylltu â chi, e.e. ffôn, ffacs, llythyr, e-bost a darganfod sut mae pobl sydd â nam ar eu clyw yn defnyddio Text Relay yn www.textrelay.org</p> <p>Gofyn bob amser a oes gan yr ymholwr neu unrhyw un o'r gwesteion yn y grŵp ofynion mynediad penodol.</p> <p>Hyrwyddo eich Datganiad Hygyrchedd.</p>
-------------------	---

Cynaliadwyedd	<p>Ystyried drafftio a hyrwyddo polisi rheoli amgylcheddol, sy'n nodi'r camau sy'n cael eu cymryd gennych chi a'ch sefydliad yng nghyd-destun yr amgylchedd a chynaliadwyedd.</p>
----------------------	---

2.2.3 Y Dderbynfa: Staff ar gael pan mae Gwesteion yn Cyrraedd ac yn Gadael

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n debyg mai'r dderbynfa fydd pwynt cyswllt cyntaf ac olaf y gwesteion â'r gwesty, felly dylid rhoi sylw arbennig i ofal cwsmer da. • Blaenoriaeth i gyswllt uniongyrchol â gwesteion dros ddyletswyddau eraill y dderbynfa. Y perchennog neu'r staff ar gael i groesawu gwesteion a chynnig gwybodaeth/gwasanaethau, o ychydig cyn brechwast tan tua 10pm. • Defnyddio cloch neu ffôn efallai i gael sylw'r croesawydd. • Egluro'n glir wrth y gwesteion sut mae cyrraedd eu hystafell a ble mae cyfleusterau'r gwesty. • Y broses o roi allwedd ystafell wely i westeion a chodi tâl am eitemau ar y cyfrif bob amser yn cael ei gwneud yn synhwyrol er mwyn diogelu eiddo gwesteion. • Er mwyn sicrhau diogelwch personol, hebrwng gwesteion i'w hystafelloedd gwely os gofynnir am hynny. • Rhoi gwybod i'r gwesteion pryd mae bwyd ar gael, a phryd mae'r bar ar agor ac ati.

Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth derbynfa'n cael ei ddarparu o ychydig cyn brecwast tan yn hwyr yn y nos. Mae'r arferion gorau'n awgrymu rhwng 7am ac 11pm. • Croesawydd ar ddyletswydd yn ystod adegau cyrraedd/gadael prysur pan mae'n hanfodol darparu gwasanaeth llawn. • Fodd bynnag, ar adegau eraill, croesawydd yn cael ei alw drwy gloch neu ffôn i sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o oedi. • Gwasanaethau derbynfa ychwanegol, e.e. gwasanaeth ymadael cyflym, gwasanaeth cofrestru/gadael 24 awr y diwrnod, yn cael eu darparu mewn gwestai lle mae angen hynny, e.e. mewn gwestai yng nghanol dinasoedd a gwestai ger meysydd awyr.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y dderbynfa'n cael ei staffio drwy'r adeg rhwng 7am ac 11pm. Digon o staff i sicrhau cyn lleied ag sy'n bosibl o oedi. • Aelod o'r staff – y porthor nos efallai – ar gael ac yn gallu cyflawni dyletswyddau'r dderbynfa rhwng 11pm a 7am.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Derbynfa 24 awr y diwrnod â staff digon medrus i allu sicrhau nad oes unrhyw oedi i westeion. • Gwesteion sy'n cyrraedd yn cael eu cyfarch yn ddi-oed y tu allan i fynedfa'r gwesty. • Cynigir gwasanaeth parcio ceir. Ar ôl cyrraedd, gwestai'n gallu symud yn rhwydd o du allan y gwesty i'r fynedfa ac yna i'r dderbynfa. • Pob gwestai'n cael cynnig aelod o'r staff â sgiliau rhagorol i'w hebrwng i'w ystafell wely. • Yr hebryngwr yn rhoi gwybodaeth i'r gwesteion am gyfleusterau pwysig yn y gwesty a'r ystafell wely.

Hygyrchedd	Sicrhau bod gwesteion sy'n nodi bod ganddynt anabledd, e.e. nam ar eu golwg, yn cael cynnig taith dywys i ymgyfarwyddo â'r gwesty.
-------------------	--

2.2.4 Cymorth â Bagiau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cymorth â bagiau ar gael ar gais drwy gydol y dydd a gyda'r nos.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lle diogel i storio bagiau am gyfnod byr.
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Dwy Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cymorth â bagiau ar gael yn rhwydd.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Staff y gwesty'n gofalu am y bagiau o'r adeg y mae'r gwestai'n cyrraedd y tu allan i'r gwesty ac yn mynd â hwy i'r ystafell wely ar eu hunion. Yr un gwasanaeth o safon pan fo'n amser ymadael. • Darperir lle diogel i gadw bagiau am gyfnod byr a rhoddir derbynneb.

2.2.5 Arall – Gwasanaethau Derbynfya/Concierge/Cadw Tŷ

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Haearn smwddio a bwrdd smwddio ar gael. • Galwad gynnar yn y bore drwy wneud cais, neu larwm ar gloc, ffôn neu deledu ar gael yn yr ystafell. • Gwybodaeth briodol i ymwelwyr, am deithio a/neu'r ardal leol, sy'n addas i anghenion y farchnad. Dylai'r wybodaeth gael ei chyflwyno'n dda, e.e. mewn ffolder, rac neu ffurf electronig.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Efallai y bydd gwasanaeth golchi dillad yn cael ei ddarparu ac yn cael ei hysbysebu â phrisiau. • Ymdrin â galwadau ffôn i westeion preswyl mewn modd proffesiynol, heb dynnu sylw diangen atynt. • Negeseuon yn cael eu hysgrifennu a phob ymdrech yn cael ei gwneud i hysbysu gwesteion bod neges wedi cyrraedd iddynt. Teledu rhyngweithiol a systemau negeseuon llais yn dderbyniol. • Detholiad o bapurau newydd dyddiol ar gael i'w prynu, neu bapur di-dâl yn cael ei ddarparu. • Gwybodaeth am deithio a/ neu wybodaeth leol megis manylion am atyniadau i ymwelwyr, cwmnïau tacsï, banciau, eglwysi, gorsafoedd rheilffordd, siopau blodau ac ati, wedi eu cyflwyno'n dda ac ar gael mewn ystafelloedd gwely.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth golchi dillad a sychlanhau o bosibl yn cael ei ddarparu a'i hysbysebu â phrisiau. • Galwad gynnar yn y bore. Ni ddisgwylir i westeion osod eu galwad larwm eu hunain. • Negeseuon yn cael eu danfon yn fuan i'r ystafelloedd gwely neu i'r gwestai yn y manau cyhoeddus. • Gellir archebu papurau newydd a'u danfon i ystafelloedd gwely'r gwesteion.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth presio (yr un diwrnod o leiaf), a gwasanaeth sychlanhau a golchi dillad a'u dychwelyd cyn pen 24 awr. • Darperir gwasanaeth ystafell gotiau (lle cadw cotiau) a rhoddir derbynneb. • Gwasanaeth glanhau esgidiau yn cael ei hysbysebu. Gall fod yn beiriant wedi'i leoli mewn man cyfleus neu'n ddeunyddiau glanhau esgidiau ar gael ar gais. • Pob neges yn cael ei thrin yn gyfrinachol a negeseuon ysgrifenedig yn cael eu cyflwyno mewn amlen. • Darperir gwasanaeth concierge llawn. • Gall hyn amrywio gan ddibynnu ar leoliad y gwesty a'r math o westy, ond gall gynnwys rhai o'r canlynol neu bob un ohonynt: archebu tocynnau theatr, tripiâu i weld golygfeydd, archebu tacsï, parcio ceir a cheisiadau eraill.
Hygyrchedd	<p>Darparu cloc larwm sy'n crynu i westeion sydd â nam ar eu clyw.</p> <p>Darparu gwybodaeth am y gwesty mewn fformatau amrywiol e.e. print bras, Braille, lluniau, ffeiliau MP3 a disgrifiad clywedol ar wefannau.</p>

Cynaliadwyedd	Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth leol i ymwelwyr yn neunydd hyrwyddo'r gwesty ac yn y ffolderi gwybodaeth i ymwelwyr yn yr ystafelloedd gwely.
----------------------	--

2.3 Pob Pryd Bwyd – Ansawdd y Cyfleusterau Bwyta a Gwybodaeth

2.3.1 Darpariaeth ar gyfer Bwyta

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gall ardaloedd bwyta dynodedig gynnwys tŷ bwyta, ystafell fwyta, brasserie, bistro neu far. • Ardal fwyta ddynodedig, ar agor i breswylwyr ar gyfer brecwast, saith niwrnod yr wythnos. • Darperir prydau gyda'r nos o leiaf bum niwrnod yr wythnos. • Hysbysir gwsteion pan fyddant yn archebu os nad oes cinio gyda'r nos ar gael ar noson benodol. Pan fo hyn yn digwydd, dylai lluniaeth ysgafn a byrbrydau amrywiol, e.e. cawl, brechdanau ac ati gael eu cynnig bob amser. • Gall gwsteion preswylwyr gael cinio gyda'r nos drwy drefnu ymlaen llaw.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un tŷ bwyta, ar agor ar gyfer cinio gyda'r nos chwe diwrnod yr wythnos, i breswylwyr a'u gwsteion. Os yw'r lleoliad yn briodol, dylai'r tŷ bwyta fod ar agor i rai nad ydynt yn aros yn y gwesty, e.e. canol y ddinas a ger meysydd awyr. • Ar y diwrnod nad yw'r tŷ bwyta ar agor rhaid i fwyd bar neu ddewis tebyg fod ar gael. • Nid yw bar yn dderbyniol fel yr unig fan bwyta. • Mae'n dderbyniol disgwyl i bobl nad ydynt yn aros yn y gwesty archebu cinio gyda'r nos ymlaen llaw.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un tŷ bwyta, ar agor i breswylwyr a phobl eraill, ar gyfer brecwast a chinio gyda'r nos saith niwrnod yr wythnos. • Mae brasserie/bistro/bar o safon uwch yn dderbyniol ar gyfer cinio ganol dydd, ar yr amod bod gwsteion yn gallu bwyta mewn cyffordduswydd a threfn a bod bwyd yn cael ei weini iddynt wrth y bwrdd.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un tŷ bwyta, ar agor i breswylwyr a phobl eraill, ar gyfer pob pryd bwyd saith niwrnod yr wythnos.

Hygyrchedd	Ceisio bod yn hyblyg ag amser prydau bwyd er mwyn helpu pobl ddiabetig i reoli lefel y siwgr yn eu gwaed.
-------------------	---

2.3.2 Perchnogaeth Tai Bwyta

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<p>Lle bo cinio gyda'r nos yn cael ei weini mewn tŷ bwyta, sydd ar wahân neu'n cael ei osod ar gcontract, bydd yn dal i gael ei asesu fel rhan o'r busnes cyfan. Mae tŷ bwyta o'r fath yn dderbyniol ar yr amod bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y gwesty'n derbyn cyfrifoldeb llwyr am ansawdd yr amgylchedd, y bwyd a'r gwasanaeth a ddarperir yn y tŷ bwyta. • Gwesteion yn cael eu hysbysu pan fyddant yn archebu ystafell wely bod cinio gyda'r nos yn cael ei weini mewn tŷ bwyta ar wahân. • Mynediad yn rhwydd e.e. o fewn pellter cerdded o tua 250 metr (1/4 milltir neu ddeng munud ar droed), ac ymbarél yn cael ei darparu os oes modd, neu o fewn 5/10 munud os yw'r gwesty'n darparu cludiant am ddim. • Caniateir i westeion roi prydau bwyd a diodydd ar eu cyfrif yn y gwesty.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

2.3.3 Byrddau/Gosodiad y Bwrdd

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau unigol ar gael i bob gwestai neu grŵp. • Gosodiad byrddau o ansawdd derbyniol ac yn briodol i'r math o bryd sy'n cael ei weini. • Byrddau o uchder priodol er mwyn bwyta'n gyfforddus, hyd yn oed os ydynt wedi eu gosod yn agos at ei gilydd.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

Hygyrchedd	<p>Sicrhau bod byrddau'n gadarn ac yn gallu dal pwysau pobl wrth iddynt godi o'u cadeiriau.</p> <p>Sicrhau bod gwrthgyferbyniad da rhwng lliw'r llestri a'r lliain bwrdd neu arwyneb y bwrdd er mwyn helpu gwesteion sydd â nam ar eu golwg.</p>
-------------------	--

2.3.4 Gweini Prydau: Staff

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Digon o staff i sicrhau gwasanaeth cyflym ar gyfer pob pryd bwyd sy'n cael ei weini. • Staff dymunol a chwrtais yn darparu safon dderbyniol o ofal cwsmeriaid ac yn dangos lefelau derbyniol o wybodaeth am y seigiau sy'n cael eu gweini.

Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Goruchwyliwr ar ddyletswydd yn y man bwyta i sicrhau gwasanaeth mwy effeithlon. • Staff dymunol a chwrtais yn darparu safon dda o ofal cwsmeriaid ac yn dangos lefelau da o wybodaeth am fwyd, diodydd a gwin a sgiliau gweini.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Rheolwr ar ddyletswydd yn y tŷ bwyta i sicrhau gwasanaeth effeithlon iawn. • Staff anymwthiol, dymunol a chwrtais yn darparu safon dda iawn o ofal cwsmeriaid ac yn dangos lefelau da iawn o wybodaeth am fwyd, diodydd a gwin a sgiliau gweini.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Tim strwythuredig o staff a rheolwr yn bresennol. • Staff yn y tŷ bwyta bob amser. • Staff anymwthiol, dymunol a chwrtais yn darparu safon ragorol o ofal cwsmeriaid. Staff proffesiynol a rhagweithiol, sydd wedi cael hyfforddiant i safon uchel. • Gwesteion yn cael eu croesawu a'u hebrwng at eu bwrdd ar gyfer pob pryd bwyd ac ym mhob ardal lle gweinir bwyd a diod. • Gwasanaeth bwrdd cyflym mewn mannau cyhoeddus lle mae gwesteion yn eistedd. • Staff yn dangos lefelau rhagorol o wybodaeth am fwyd, diodydd a gwin a sgiliau gweini.

Hygyrchedd	Cynnig dewis o leoedd eistedd i westeion. Darparu detholiad o gadeiriau – rhai gyda breichiau a rhai heb freichiau.
-------------------	---

2.4 Brecwast

2.4.1 Darpariaeth

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Brecwast wedi'i goginio neu frecwast Ffrengig yn cael ei ddarparu mewn man bwyta dynodedig ar y safle ac yn cael ei hysbysebu felly.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Brecwast wedi'i goginio a brecwast Ffrengig yn cael ei ddarparu mewn man bwyta dynodedig ar y safle ac yn cael ei hysbysebu felly.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren

2.4.2 Amseroedd Brecwast

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Brecwast yn cael ei weini ar amser priodol i gwsmeriaid y gwesty.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Brecwast yn cael ei weini am o leiaf awr a hanner.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Brecwast yn cael ei weini am o leiaf ddwy awr.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Brecwast yn cael ei weini am o leiaf dair awr.

2.4.3 Prisiau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pris brecwast yn cael ei arddangos pan fo dewis ystafell-yn-unig ar gael. • Pris unrhyw eitemau brecwast lle codir tâl ychwanegol yn cael ei hysbysebu'n glir.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Os yw brecwast ar gael i bobl nad ydynt yn aros yn y gwesty, dylid arddangos y pris yn glir.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren

2.4.4 Bwydlen

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae eglurhad geiriol o'r seigiau sydd ar gael yn dderbyniol.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bwydlen lân a thaclus yn cael ei darparu ar gyfer brecwast sy'n cael ei weini o'r gegin. • Os oes bwffe, dylid rhoi manylion ar y fwydlen am unrhyw eitemau sydd ar gael ond nad ydynt wedi eu cynnwys yn y bwffe.
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Dwy Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bwydlen yn rhoi manylion am yr eitemau sydd yn y brecwast llawn yn cael ei darparu.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bwydlen, o'r safon uchaf, yn rhoi manylion am yr eitemau sydd yn y brecwast llawn yn cael ei darparu.

Hygyrchedd	Darparu bwydlen print bras (maint 14pt o leiaf) mewn ffont glir tebyg i Arial.
-------------------	--

Cynaliadwyedd	Gall bwydlenni sy'n tynnu sylw at fwydydd lleol arbennig helpu i'ch gwneud yn wahanol i bobl eraill sy'n cystadlu yn eich erbyn. Felly tynnwch sylw at y cysylltiad â chynhyrchwyr lleol lle bynnag y bo modd, a nodwch yn fyr o ble mae'r cynhwysion yn dod, pwy yw'r cynhyrchwr a pham rydych wedi ei ddewis.
----------------------	---

2.4.5 Ystod o Seigiau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae bwydlen benodol yn dderbyniol. • Y brecwast Ffrengig i gynnwys y canlynol fel isafswm: sudd ffrwythau, grawnfwyd, iogwrt, coffi, te a thost. Brecwast wedi'i goginio i gynnwys o leiaf dair eitem boeth e.e. cig moch, ŵy, selsig, madarch, ffa pob ynghyd â choffi, te a thost.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Amrywiaeth da o eitemau poeth ac oer, ynghyd â dewis da o eitemau o ansawdd da i fynd gyda hwy, e.e. jam, coffi mât a choffi heb gaffein, te, menyng a thaeniadau. • Cynnig gwahanol ffyrdd o goginio wyau i'r gwesteion, gan gynnwys ffrio, potsio, berwi a sgramblo.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o amrywiaeth o eitemau poeth ac oer.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Amrywiaeth cynhwysfawr o seigiau poeth ac oer o ansawdd rhagorol, e.e. sudd ffrwythau newydd eu gwasgu, amrywiaeth o ffrwythau aeddfed ffres yn eu tymor, cig oer a chawsiau, wyau buarth, bwydydd lleol arbenigol, pysgod ffres, eitemau amrywiol wedi eu pobi, cynnyrch ar gyfer deiet arbennig ac amrywiaeth gynhwysfawr o eitemau poeth sy'n edrych yn dda.

Hygyrchedd	Darparu ar gyfer gofynion gwahanol ddeietau, e.e. dim cynnyrch llaeth, dim gwenith, dim lactos, dim cnau.
-------------------	---

2.4.6 Ansawdd y Bwyd

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y bwydydd poeth i gyd yn cael eu cyflwyno'n dda ac yn cael eu gweini ar y tymheredd cywir ar blatiau poeth. • Gofalu bod sudd ffrwythau'n oer, y tost ddim yn feddal a'r coffi/te yn ffres.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhwysion o ansawdd da'n cael eu coginio a'u cyflwyno i safon uchel. • Ystyried darparu dewisiadau bwyta'n iach.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y bwyd i gyd wedi'i goginio'n gywir a'i baratoi â lefel dda iawn o sgiliau, gofal a chyflwyniad ac yn cael ei weini ar y tymheredd cywir.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhwysion o ansawdd arbennig yn cael eu coginio a'u cyflwyno i safon ragorol.

Cynaliadwyedd	<p>Prynu cynnyrch bwyd a diod yn lleol os oes modd. Datblygu perthynas â chynhyrchwyr a masnachwyr lleol.</p> <p>Dylai staff sy'n gweini bwyd a diod gael gwybodaeth lawn am darddiad, nodweddion ac arwyddocâd cynnyrch bwyd a diod lleol.</p>
----------------------	---

2.4.7 Math o Wasanaeth

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gosodiad y bwrdd yn briodol i'r math o wasanaeth. • Mae gwasanaeth bwffe helpu eich hun yn dderbyniol. Er hyn, dylid ail-lenwi platiau bwffe yn rheolaidd. Lle bo'n cael ei ddarparu, dylai bwffe gael ei osod a'i weithredu mewn modd ymarferol sy'n ystyried anghenion y cwsmeriaid. • Mae diodydd poeth hunanwasanaeth yn dderbyniol.

Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Byrddau brecwast yn cael eu gosod â lle wrth y bwrdd i bob gwestai, gyda phrif gyllell, cyllell ochr, fforc, llwy grawnfwyd, cwpan, soser, llwy de, plât ochr a napcyn. Pupur, halen, siwgr, llefrith, menyn a jam ac ati wedi eu gosod ar y bwrdd. • Diodydd poeth yn cael eu gweini wrth y bwrdd, ond mae peiriannau gwerthu diod o safon uchel yn dderbyniol fel dewis ychwanegol.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o wasanaeth â sylw ychwanegol i fanylion. • Gwasanaeth bwrdd yn cael ei hysbysebu ac ar gael ar gais.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth bwrdd yn cael ei gynnig fel mater o drefn. • Os oes bwffe, mwy o gymorth ar gael.

Hygyrchedd	Cynnig cymorth i westeion â bwffe hunanwasanaeth lle bo'n briodol.
-------------------	--

2.5 Prydau Eraill

2.5.1 Cinio gyda'r Nos: Oriau Gweini

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cinio gyda'r nos yn cael ei weini am o leiaf un awr, amseroedd penodol yn ôl angen y farchnad ac yn cael eu hysbysebu'n glir. • Rhywfaint o fyrbrydau neu brydau oer yn cael eu darparu i westeion sy'n cyrraedd yn hwyr, drwy drefnu ymlaen llaw. • Mae'n dderbyniol gofyn i westeion preswyl ddewis seigiau ar gyfer cinio gyda'r nos yn gynharach yn ystod y dydd. Fodd bynnag, rhaid i westeion y mae'n well ganddynt ddewis yn nes ymlaen, gan gynnwys ychydig cyn amser y pryd bwyd, allu gwneud hynny heb gael eu rhoi dan unrhyw bwysau i ddewis yn gynharach. Ni ddylid gofyn i westeion newydd ddewis seigiau ar gyfer cinio gyda'r nos cyn cyrraedd y gwesty.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r tŷ bwyta fod ar agor am o leiaf ddwy awr. Amseroedd agor penodol i gyd-fynd ag angen y farchnad. • Ni ddisgwylir i westeion ddewis seigiau ar gyfer cinio gyda'r nos yn gynharach yn y dydd. • Dylai amseroedd bwyd gael eu hysbysebu'n glir a'u hegluro wrth y gwesteion ymlaen llaw, rhag siomi neb.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren

Hygyrchedd	Ceisio bod yn hyblyg ag amseroedd bwyd er mwyn helpu pobl ddiabetig i reoli lefel y siwgr yn eu gwaed.
-------------------	--

2.5.2 Ystod o Seigiau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Dau gwrs ar gael. Dylai'r prif gwrs fod yn saig boeth sylweddol.
Dwy Seren	• Fel Un Seren
Tair Seren	• Tri chwrs ar gael. • Dewis o seigiau poeth ac oer sylweddol.
Pedair Seren	• Fel Tair Seren
Pum Seren	• Dewis helaeth o fwyd. • Amrywiaeth eang o seigiau o ansawdd arbennig.

Hygyrchedd	Darparu ar gyfer gofynion gwahanol ddeietau, e.e. dim cynnyrch llaeth, dim gwenith, dim lactos, dim cnau.
-------------------	---

2.5.3 Bwydlen a Phrisiau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Bwydlenni ysgrifenedig derbyniol, glân, wedi eu cyflwyno'n dda, â disgrifiadau cywir. Er hyn, mae'n dderbyniol cynnig disgrifiad llafar o'r seigiau sydd ar gael yn lle hynny. • Dylid arddangos pris y cinio gyda'r nos os nad yw tariff y llety'n cynnwys cinio gyda'r nos. • Y pris wedi'i hysbysebu'n glir os codir tâl ychwanegol am saig benodol. • Taliadau ychwanegol, megis TAW, tâl gwasanaeth, a thâl gweini, yn cael eu nodi'n glir ar y bwydlenni.
Dwy Seren	• Fel Un Seren
Tair Seren	• Bwydlenni ysgrifenedig o safon â phrisiau wedi eu nodi'n glir.
Pedair Seren	• Fel Tair Seren
Pum Seren	• Bwydlenni wedi eu cyflwyno'n arbennig o dda.

Hygyrchedd	Darparu bwydlen print bras (maint 14pt o leiaf) mewn ffont glir tebyg i Arial.
-------------------	--

Cynaliadwyedd	Gall bwydlenni sy'n tynnu sylw at fwydydd lleol arbennig helpu i'ch gwneud yn wahanol i bobl eraill sy'n cystadlu yn eich erbyn. Felly tynnwch sylw at y cysylltiad â chynhyrchwyr lleol lle bynnag y bo modd, a nodwch yn fyr o ble mae'r cynhwysion yn dod, pwy yw'r cynhyrchwr a pham rydych wedi ei ddewis.
----------------------	---

2.5.4 Ansawdd y Bwyd

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Pob pryd wedi'i goginio/paratoi'n ffres ar y safle â lefel dderbyniol o sgiliau a chyflwyniad, ac wedi'i weini ar y tymheredd cywir. Tystiolaeth o rywfaint o gynnyrch ffres. • O leiaf un dewis i lysieuwyr ar gael (ar gais o leiaf) ym mhob cwrs.
Dwy Seren	• Fel Un Seren

Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob pryd, gan gynnwys unrhyw wasanaeth ystafell, wedi'i baratoi â lefel dda o sgiliau, gofal a chyflwyniad ac wedi'i weini ar y tymheredd cywir. • Rhoddir sylw penodol i ansawdd y bwyd yn hytrach na bwydlenni helaeth.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob pryd, gan gynnwys unrhyw wasanaeth ystafell, wedi'i baratoi â lefel dda iawn o sgiliau, gofal a chyflwyniad ac wedi'i weini ar y tymheredd cywir. • Darperir ar gyfer gofynion deietau amrywiol.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob pryd, gan gynnwys unrhyw wasanaeth ystafell, wedi'i baratoi â lefel ragorol o sgiliau gan ddefnyddio cynnyrch ffres. • Ansawdd y coginio'n cyrraedd safon uchel ryngwladol.

Cynaliadwyedd	<p>Prynu cynnyrch bwyd a diod yn lleol os oes modd. Datblygu perthynas â chynhyrchwyr a masnachwyr lleol.</p> <p>Dylai staff sy'n gweini bwyd a diod fod â gwybodaeth dda am darddiad, nodweddion ac arwyddocâd cynnyrch bwyd a diod lleol.</p>
----------------------	---

2.5.5 Math o Wasanaeth

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwasanaeth helpu eich hun yn dderbyniol e.e. carferi neu fwffe.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y prif gwrs yn cael ei weini i'r gwestai wrth ei fwrdd ar gais. • Gwasanaeth bwrdd llawn ond mae carferi yn dderbyniol.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob cwrs yn cael ei weini i'r gwesteion wrth eu byrddau.

Hygyrchedd	Os darperir gwasanaeth helpu eich hun, cynnig cymorth i'r gwesteion lle bo'n briodol.
-------------------	---

2.5.6 Gwin a Gweini Gwin

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Darperir gwin coch a gwyn. • Prisiau a mesuriadau gwin yn cael eu harddangos yn glir. • Y staff yn dangos gwybodaeth elfennol am y gwinoedd sydd ar gael, e.e. o ba wlad y maent yn dod.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig dewis o winoedd da. • Dylid darparu rhestr winoedd lân, wedi'i chyflwyno'n dda, sy'n rhestru'n glir ac yn gywir y dewis o winoedd a'r mesurau sydd ar gael. • Staff yn dangos gwybodaeth dda am y gwinoedd sydd ar gael.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig mwy o ddewis o winoedd a'r rheini o ansawdd gwell. • Rhestr winoedd fanwl sy'n rhoi llawer o wybodaeth.

Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnig dewis ardderchog o winoedd a'r rheini o ansawdd rhagorol. • Staff yn dangos gwybodaeth ragorol am winoedd a sgiliau gweini gwin. Yn debygol o gynnwys tîm penodol i weini gwin (sommelier).
------------------	---

2.5.7 Gweini Diod Gadarn/Trwyddedau (fel sy'n berthnasol dan y deddfau trwyddedu yng Nghymru)

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Trwydded wirod gyfredol neu drwydded gyfatebol. • Gweinir diodydd cadarn i breswylwyr ar adegau bwyd. • Amrywiaeth o ddiodydd ar gael mewn bar neu lolfa. Mae barrau gonestrwydd a barrau i weini diodydd gyda bwyd yn dderbyniol. • Rhestr prisiau'n cael ei harddangos lle bynnag y gweinir diodydd.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gweinir diodydd cadarn drwy gydol y dydd a gyda'r nos i breswylwyr a'u gwesteion. • Darperir ystod eang o ddiodydd mewn bar neu lolfa. • Dylid darparu gwasanaeth bwrdd yn y lolfa os nad oes cownter bar.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Diodydd cadarn yn cael eu gweini 24 awr y diwrnod i breswylwyr. • Gwasanaeth bwrdd ar gael ar gais.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Amrediad cynhwysfawr o ddiodydd, gan gynnwys gwinoedd a choctels. • Darperir gwasanaeth bwrdd.

2.5.8 Gweini Cinio

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw gwasanaeth cinio'n ofynnol.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae brasserie/bistro/bar o safon uwch yn dderbyniol ar gyfer cinio, ar yr amod bod gwesteion yn gallu bwyta mewn cyfforddusrwydd a threfn a chael bwyd wedi'i weini iddynt wrth y bwrdd. • Dewis o seigiau poeth ac oer ym mhob cwrs – cwrs cyntaf, prif gwrs a phwddin.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cinio'n cael ei weini mewn tŷ bwyta ffurfiol. • Dewis helaeth ym mhob cwrs.

2.5.9 Lluniaeth Ysgafn, Byrbrydau a The Prynawn

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Diodydd poeth ac oer ar gael i breswylwyr a'u gwesteion yn y manau cyhoeddus yn ystod y dydd a gyda'r nos. Efallai y bydd yn ofynnol i westeion archebu yn y dderbynfa neu wrth y bar. Gallai peiriant gwerthu yn y manau cyhoeddus fod yn dderbyniol. (Nid yw cyfeirio at gyfleusterau yn yr ystafelloedd yn dderbyniol.)

Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lluniaeth ysgafn, yn cynnwys diodydd poeth ac oer a brechdanau o leiaf ar gael i breswylwyr a'u gwesteion yn y manau cyhoeddus drwy gydol y dydd a gyda'r nos. Dylai'r gwasanaeth hwn gael ei hysbysebu'n glir.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lluniaeth ysgafn a byrbrydau poeth ac oer ar gael i breswylwyr a'u gwesteion yn y manau cyhoeddus drwy gydol y dydd a gyda'r nos. • Gwesteion yn gallu archebu a chael bwyd wedi'i weini iddynt wrth eu bwrdd.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lluniaeth ysgafn a byrbrydau poeth ac oer ar gael i breswylwyr yn y manau cyhoeddus 24 awr y diwrnod. • Te prynhawn llawn ar gael.

2.5.10 Darparu Gwasanaeth Ystafell

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dewisol ac eithrio os bydd rhywun yn wael. • Gall unrhyw wasanaeth ystafell a ddarperir fod yn gyfyngedig o ran dewis.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r gwesty allu cynnig, fel isafswm, gwasanaeth ystafell sy'n cynnwys diodydd poeth ac oer a byrbrydau ysgafn, e.e. brechdanau yn ystod y dydd a gyda'r nos, ar gais. Os na ddarperir bwydlen gwasanaeth ystafell mewn ystafelloedd gwely, dylid cyfeirio at y gwasanaeth ystafell mewn gwybodaeth sydd yn yr ystafell.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r fwydlen gwasanaeth ystafell gael ei hysbysebu'n glir â phrisiau mewn ystafelloedd gwely. • Gwasanaeth ystafell 24 awr y diwrnod yn cynnig byrbrydau ysgafn fel brechdanau a diodydd poeth ac oer, gan gynnwys diodydd cadarn. • Darparu brecwast gwasanaeth ystafell ac amrediad o seigiau poeth ac oer sylweddol yn ystod oriau amser cinio a gyda'r nos y tŷ bwyta. Gellir caniatáu eithriad os nad yw'r gwesty'n darparu gwasanaeth cinio.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth ystafell 24 awr y diwrnod yn cynnig byrbrydau a diodydd poeth ac oer, gan gynnwys diodydd cadarn. • Gall gwesteion ddewis o fwydlen cinio llawn yn ystod oriau'r tŷ bwyta, o dŷ bwyta neu brasserie y gwesty, neu o'r ddau.
Hygyrchedd	Darparu prydau bwyd i westeion yn eu hystafelloedd (ar gais) lle bo'n briodol e.e. gwesteion anabl.

2.5.11 Gwasanaeth Ystafell: Y Gwasanaeth a'r Cyflwyniad

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Ddim yn ofynnol.
Dwy Seren	• Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gall fod yn ddewis o ddiodydd a byrbrydau poeth ac oer, neu'n fwydlen lawn. Beth bynnag yw lefel y gwasanaeth ystafell a ddarperir, dylid hysbysu gwsteion ynglŷn â'r prisiau cyn iddynt eu harchebu. • Eitemau gwasanaeth ystafell wedi'u cyflwyno'n dda ac yn cael eu gweini ar hambwrdd sydd â digon o le ar gyfer popeth. Darperir cyllyll a ffyrc a llestri priodol, a phupur a halen ac ati. • Gwasanaeth cyflym ac effeithlon. • Trefniadau wedi'u gwneud i gasglu hambyrddau.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bwydlen gwasanaeth ystafell lawn, yn cael ei hyrwyddo'n glir â phrisiau. • Rhaid cynnwys darpariaeth brecwast Ffrengig a brecwast wedi'i goginio a bwydlen cinio gyda'r nos sylweddol yn ystod oriau'r tŷ bwyta. • Dylai byrbrydau poeth ac oer fod ar gael 24 awr y diwrnod, pan fo'r tŷ bwyta ar gau. • Rhaid i westai sydd heb dai bwyta ddarparu byrbrydau poeth ac oer o leiaf, 24 awr y diwrnod.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth ystafell yn cael ei archebu, ei ddanfôn a'i glirio mewn modd hynod broffesiynol ac effeithlon a heb amharu ar wasanaethau eraill. • Gwasanaeth ystafell llawn yn cynnig cinio a chinio gyda'r nos yn ystod oriau tŷ bwyta, hyd yn oed os nad oes gan y gwesty dŷ bwyta. Y modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n caniatáu i bob cwrs gael ei fwyta ar y tymheredd cywir. Pob pryd yn cael ei weini ar fwrdd bwyd neu droli cynnes, neu bob cwrs poeth yn cael ei ddanfôn ar wahân. Y cyflwyniad o'r safon uchaf.

2.5.12 Gwasanaeth Ystafell: Brecwast

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Ddim yn ofynnol.
Dwy Seren	• Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai diodydd poeth gael eu gweini'n ffres gydag unrhyw frecwast gwasanaeth ystafell sy'n cael ei gynnig. • Gwsteion yn gallu archebu eu brecwast dros y ffôn neu drwy gerdyn archebu brecwast heb adael eu hystafell naill ai yn y bore neu y noson gynt.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth ystafell ar gyfer brecwast Ffrengig a brecwast llawn wedi'i goginio yn cael ei hysbysebu a'i ddarparu.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dewis eang o seigiau poeth ac oer sylweddol ar gael. Mae eitemau à la carte yn arferol yn aml ar y lefel hon.

2.6 Ystafelloedd Gwely

2.6.1 Darpariaeth

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• O leiaf bum ystafell wely'n cael eu gosod.
Dwy Seren	• Fel Un Seren
Tair Seren	• Fel Un Seren
Pedair Seren	• Fel Un Seren
Pum Seren	• Fel Un Seren

Hygyrchedd	Ceisio darparu ystafell wely ar y llawr gwaelod.
-------------------	--

2.6.2 Ansawdd Cyffredinol

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ffordd o gau drysau ystafelloedd gwely o'r tu mewn ac o'r tu allan, ac allwedd neu gerdyn allwedd yn cael ei ddarparu. • Ansawdd a chyflwr derbyniol o ran safon celfi, dodrefn meddal, lloriau, ffitiadau ac addurniadau. • Gwneir pob ymdrech i leihau lefelau sŵn o ystafelloedd a choridorau cyfagos, e.e. lloriau'n gwichian, ffaniau echdynnu swllyd, toiledau mecanyddol, pibelli dŵr swllyd ac ati. • Mae angen i westai sydd wedi'u lleoli mewn amgylchedd swllyd iawn – yng nghanol dinas neu ger maes awyr – fod wedi ceisio lleihau sŵn, drwy ddefnyddio gwydr dwbl/trebl o bosibl.
Dwy Seren	• Fel Un Seren
Tair Seren	• Celfi, dodrefn meddal, lloriau, ffitiadau ac addurniadau o ansawdd a chyflwr da, yn cydweddu'n dda, ac yn addas i awyrgylch y gwesty.
Pedair Seren	• Darperir gwell ynysiad rhag sŵn drwy ddrysau a waliau mwy trwchus.
Pum Seren	• Ansawdd a chyflwr cynhenid rhagorol, â chelfi, dodrefn meddal, lloriau, ffitiadau ac addurniadau chwaethus o safon. • Prin ddim sŵn mewnol nac allanol. Hyn yn cael ei sicrhau o bosibl drwy ddefnyddio gwydr dwbl, deunydd inswleiddio strwythurol rhagorol a chyntedd helaeth i'r ystafell wely.

2.6.3 Cadw Tŷ

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl ystafelloedd gwely'n cael eu glanhau yn ddyddiol, a'u harchwilio i sicrhau safonau glendid da. Ystafelloedd yn edrych yn lân a heb aroglau annymunol. Rhoddir sylw penodol i ystafelloedd sy'n cael eu defnyddio gan ysmygwyr. • Yr holl waliau, nenfydau, pibelli, silffoedd, cyfarpar a ffitiadau, na ellir eu cyrraedd o'r llawr, yn cael eu glanhau'n rheolaidd. Dim llwch, baw, saim na marciau ar unrhyw arwyneb gwastad, cyfarpar na chelfi. • Pob gwely'n cael ei wneud yn ddyddiol. Dillad gwely'n cael eu newid o leiaf unwaith yr wythnos ac ar gyfer pob gwestai newydd. • Ystafelloedd yn cael eu paratoi â'r tymheredd a'r awyriad priodol yn barod i'r gwestai gyrraedd. • Gweithdrefnau ymarfer da'n cael eu dilyn er mwyn sicrhau nad yw dillad gwely glân yn cael eu rhoi ar y llawr a bod llestri a gwydrau sy'n cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd yn cael eu golchi'n lân.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dillad gwely, gan gynnwys gorchuddion duvet yn cael eu newid bob tri neu bedwar diwrnod o leiaf gan ddibynnu ar hyd yr arhosiad ac ar gyfer pob gwestai newydd. (Gwneir eithriad pan fo gwesteion, fel rhan o bolisi amgylcheddol sydd wedi cael ei hysbysebu'n glir gan westy, yn cael eu gwahodd i gytuno ar drefniadau lle nad yw dillad gwely'n cael eu newid mor aml yn ystod eu harhosiad).
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dillad gwely'n cael eu newid yn aml yn unol â pholisi'r gwesty ei hun ac ar gyfer pob gwestai newydd. • Ystafelloedd yn cael eu paratoi ymlaen llaw cyn i'r gwestai gyrraedd – o bosibl gan gynnwys gosod tymheredd ystafell priodol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn, awyru'r ystafell yn dda, cau llenni a rhoi'r golau i fynd yn ystod oriau tywyll. • Gwasanaeth cadw tŷ gyda'r nos yn cael ei ddarparu a'i hysbysebu – o bosibl yn cynnwys rhai o'r gwasanaethau a ganlyn: troi dillad gwely i lawr, gwagu biniau, cau llenni, tacluso tyweli, clirio hambyrddau gwasanaeth ystafell.

Hygyrchedd	<p>Gwnewch yn siŵr nad yw staff cadw tŷ'n symud celfi ac eitemau personol yn yr ystafell ymolchi neu'r ystafell wely oherwydd gan amlaf byddant wedi cael eu rhoi mewn manau hawdd eu cyrraedd i'r gwestai.</p> <p>Gwnewch yn siŵr nad yw trolïau cadw tŷ yn achosi rhwystrau mewn coridorau.</p>
-------------------	---

Cynaliadwyedd	<p>Os yw'n bolisi i baratoi ystafelloedd gwesteion cyn iddynt gyrraedd drwy adael goleuadau ymlaen, ystyriwch wneud y gweithgaredd hwn yn llawer hwyrach yn y diwrnod neu ddim o gwbl.</p> <p>Gellid defnyddio hysbysiadau cytundeb golchi tyweli a dillad gwely, lle gofynnir i westeion nodi a ydynt yn dymuno i'w dillad gwely a'u tyweli gael eu golchi'n llai aml. Gellid cynhyrchu arwyddion yn fewnol neu'n allanol.</p>
----------------------	---

2.6.4 Maint ac Ehangder

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely â digon o le i westeion allu symud o gwmpas yr holl gelfi a ffitiadau yn rhwydd gan gynnwys gwelyau sofffa. Gall ystafelloedd fod yn fach ond mae cynllunio gofalus yn sicrhau'r defnydd gorau o ofod. • Mae'r nenfwd yn ddigon uchel yn y rhan fwyaf o'r ystafell i alluogi rhywun 6 troedfedd o daldra i symud o gwmpas heb blygu ei ben. Mae bondo a thoeau ar oleddf yn dderbyniol cyn belled nad ydynt yn amharu ar ran fawr o'r ystafell. • Pan fyddwn yn asesu a yw maint yr ystafell wely'n dderbyniol, byddwn yn ystyried y gofod sydd ar gael i'w ddefnyddio. Ni ddylai unrhyw beth gyfyngu ar allu gwesteion i symud o gwmpas yn rhwydd. • Dylai ystafelloedd teulu fod yn fwy. • Drysau a droriau'n agor led y pen heb orfod symud celfi. • Defnydd rhwydd a chyfleus o gyfleusterau, e.e. defnyddio arwynebau heb orfod symud hambwrdd te neu deledu, mynediad at socedi trydan ac ati.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely â digon o le gwag i ganiatáu'r lefel briodol o wasanaeth ystafell. • Man ar gael i gadw bagiau heb wneud yr ystafell yn flêr neu atal mynediad. • Rhoddir ystyriaeth i leoliad cyfleusterau ystafell wely, gan gynnwys socedi trydan er mwyn iddynt fod yn hawdd i'w defnyddio. Mae hyn hefyd yn cynnwys gosod setiau teledu ar uchder cyfleus i'w gwyllo ac yn rhywle y gellir eu gweld o'r gwely a chadeiriau esmwyth. • Ystafelloedd teulu i fod yn llawer mwy.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely â mwy o le gwag, yn eu gwneud yn rhwydd iawn i'r gwesteion eu defnyddio ac yn rhagori'n sylweddol ar y gofynion mynediad sylfaenol. • Gwneir darpariaeth ar gyfer bwyta prydu gwasanaeth ystafell yn gyfforddus yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd. • Lle bo gan y gwesty farchnad hamdden sylweddol, ystyrir cyfforddusrwydd bwyta'r ddau westai mewn ystafell ddwbl/ dau wely.

Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y mwyafrif helaeth o'r ystafelloedd gwely yn fawr iawn, ac yn hawdd iawn i'w defnyddio o ran symud o gwmpas, cyfforddusrwydd, lle i fwyta ac ymlacio. • Pob ystafell wely â chyfosodiad wedi'i gynllunio'n dda sy'n gydnaws ag anghenion y gwestai h.y. busnes neu hamdden. • Maint yr ystafell, ei chyfosodiad a'r dull darparu'n sicrhau profiad bwyta o'r safon uchaf i westeion sy'n cael gwasanaeth ystafell.
------------------	--

2.6.5 Cyfres o Ystafelloedd

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'n ofynnol.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Er nad yw cyfres o ystafelloedd yn un o'r disgwyliadau ar y lefel hon, bydd llawer o westai'n cynnig cyfres o ystafelloedd neu ystafelloedd gwely mwy â man eistedd. Gall hefyd gynnwys ystafelloedd gwely sy'n arbennig o fawr a helaeth, sy'n amlwg â lolfa, ond mewn trefniant cynllun agored (e.e. o leiaf 40 troedfedd sgwâr).
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un gyfres barhaol o ystafelloedd moethus ar gael (yn cynnwys tair ystafell ar wahân – ystafell wely, lolfa ac ystafell ymolchi).

2.6.6 Maint y Gwelyau: Ansawdd

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lleiafswm maint gwelyau, gan gynnwys gwelyau sofffa a gwelyau bync, fel a ganlyn: Sengl: 190cm x 90cm (6'3" x 3'), Dwbl: 190cm x 137cm (6'3" x 4'6"); gwelyau 122cm (4') i'w dynodi'n welyau sengl. Nid yw gwelyau 76cm (2'6") yn dderbyniol, ac eithrio mewn ystafelloedd teulu lle maent wedi'u dynodi'n glir ar gyfer plant yn unig. • Nid yw gwelyau sofffa yn dderbyniol fel gwelyau parhaol. • Mae gwelyau bync (gwelyau parhaol) yn dderbyniol ar gyfer plant yn unig. Pan ddefnyddir gwelyau bync, dywedir wrth westeion pan fyddant yn gwneud yr archeb. • Pob gwely, gan gynnwys gwelyau atodol, fel gwelyau plygu, gwelyau sofffa ac ati, i fod o ansawdd derbyniol ac mewn cyflwr da. Dylent fod â gwaelod cryf a matres gyfforddus, fodern â sbrings, sbwng neu ddeunydd tebyg y tu mewn iddi. • Pen gwely cadarn neu'r hyn sy'n cyfateb iddo ar bob gwely parhaol. <p><i>D.S. Dylai gwelyau bync fod ag o leiaf 75cm (30 modfedd) o le gwag rhwng matres y gwely isaf ac ochr isaf y gwely uchaf.</i> <i>Cyfeiriad: Rheoliadau Gwelyau Bync (Peryglon Caethiwo) (Diogelwch) 1987</i></p>
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwelyau a phennau gwelyau o ansawdd a chyflwr da.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dewis o welyau mwy o faint. Gwelyau o ansawdd da iawn e.e. matres â sbrings mewn pocedi a gwaelod y gwely mewn cyflwr da iawn â phennau gwelyau neu eitemau tebyg o safon uwch.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwelyau ar gyfer ystafelloedd sengl i fod yn fwy na 90cm (3 troedfedd) o led. • Gwelyau ar gyfer ystafelloedd dwbl i fod yn 153cm (5 troedfedd) o led o leiaf. • Nifer o welyau i fod yn fwy na'r maint hwn. Nid yw gwelyau bync yn dderbyniol. • Gwelyau a phennau gwelyau o ansawdd a chyflwr rhagorol.

2.6.7 Mynd at y Gwelyau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid cael lle i fynd at ddwy ochr y gwely mewn ystafelloedd dwbl, ond gellir caniatáu eithriad ar radd un seren yn unig os yw'r holl westeion yn cael eu hysbysu'n glir ynglŷn â'r cyfyngiadau.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mynediad rhwydd at ddwy ochr y gwelyau mewn ystafelloedd dwbl.
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mynediad da at ddwy ochr y gwelyau mewn ystafelloedd dwbl.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Digonedd o le i fynd at ddwy ochr y gwelyau mewn ystafelloedd dwbl.

Hygyrchedd	<p>Darparu gwelyau sip a chyswllt fel bod modd darparu ar gyfer gwestai a phartner neu westai a gofalwr, yn enwedig mewn ystafelloedd gwely hygyrch.</p> <p>Darparu blociau fel bod modd addasu uchder gwelyau.</p>
-------------------	---

2.6.8 Dillad Gwely sy'n Ofynnol

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dwy gynfas, dwy flanced a gorchudd gwely neu un/dwy gynfas a duvet â gorchudd i bob gwely. • Lle defnyddir duvets neu obenyddion plu, dewis arall nad yw'n achosi alergedd ar gael ar gais. • Dau obennydd mewn casys gobenyddion unigol, i bob unigolyn. (Mae un gobennydd y pen yn dderbyniol ar radd Un Seren). • Gobenyddion a blancedi wrth gefn ar gael ar gais. • Unrhyw ddiillad gwely ychwanegol sy'n cael eu cadw mewn ystafelloedd gwely i fod yn lân, yn ffres ac wedi eu lapio. • Darperir gorchudd matres ar gyfer pob gwely. Nid yw gorchudd matres plastig neu rwber yn dderbyniol ac eithrio ar gyfer gwelyau plant.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy tebygol o fod â dewis o fathau o obenyddion.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Pedair Seren

Hygyrchedd	Darparu dillad gwely nad ydynt yn debygol o achosi alergedd.
-------------------	--

Cynaliadwyedd	Nid oes angen lapio dillad gwely ychwanegol mewn bagiau plastig; gellir eu rhoi mewn bag cotwm neu ddefnydd y gellir ei aildefnyddio.
----------------------	---

2.6.9 Ansawdd Dillad Gwely

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Dillad gwely o ansawdd a chyflwr da.
Dwy Seren	• Fel Un Seren
Tair Seren	• Fel Un Seren
Pedair Seren	• Dillad gwely o ansawdd a chyflwr gwell. Cyflwyniad y gwely'n gwella argraff gyffredinol yr ystafell.
Pum Seren	• Cyflwyniad y gwelyau o safon ragorol. Yr holl ddillad gwely o'r ansawdd gorau ac wedi eu golchi a'u smwddio'n berffaith.

2.6.10 Addurniadau: Waliau, Nenfwd a Gwaith Paent

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	• Addurniadau mewn cyflwr da. • Safon yr addurniadau a'r gwaith paent yn eithaf da.
Dwy Seren	• Fel Un Seren
Tair Seren	• Addurniadau o safon dda a gwaith paent mewn cyflwr da â rhywfaint o ystyriaeth wedi'i rhoi i gyd-drefnu dyluniad. • Rhywfaint o ddefnydd o welliannau addurniadol lle bo'n briodol.
Pedair Seren	• Papur wal ac ati o ansawdd arbennig, wedi'u gosod yn broffesiynol â gwelliannau addurniadol lle bo'n briodol. • Addurniadau a gwaith paent mewn cyflwr da iawn.
Pum Seren	• Addurniadau yn dangos sylw i fanylion a chyd-drefnu dyluniad, a'r gorffeniad o safon broffesiynol. Y papur wal a'r gwaith paent ac ati o ansawdd a chyflwr rhagorol yn ei hanfod. Paentiadau a phrintiau o safon i'w gweld.

Hygyrchedd	Ystyried defnyddio lliwiau gwrthgyferbyniol ar gyfer y waliau a fframiau'r drysau ac osgoi gorffeniad sgleiniog iawn, er mwyn helpu gwesteion sydd â nam ar eu golwg.
-------------------	---

2.6.11 Gwresogi a Rheoli Tymheredd

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu gwres, heb gost ychwanegol, a hwnnw'n wres y gellir ei reoli gan y gwestai (rhoi ymlaen/diffodd). • Darparu gwres ychwanegol mewn ystafelloedd ar gais pan nad yw'n bosibl i'r gwestai reoli lefelau tymheredd, e.e. rhai systemau gwresogi. • Y gwres i ddod ymlaen yn awtomatig cyn brecwast ac yn ystod y prif oriau y mae'r gwesteion yn yr ystafelloedd, e.e. amser cofrestru ac yn gynnwys gyda'r nos. • Y gwresogydd yn gallu gwresogi'r ystafell wely gyfan yn ddiogel, yn dawel, yn ddigonol ac yn gyflym pa system bynnag sy'n cael ei defnyddio.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwresogyddion sefydlog awtomatig heb gost ychwanegol.
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwresogyddion sefydlog y gellir eu rheoli'n unigol â thermostat.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ymarfer gorau'n awgrymu bod angen ymdrechu i ddarparu ffaniau ar gais i westeion eu defnyddio mewn tywydd poeth. • Gwresogyddion y gellir eu rheoli'n unigol â thermostat ar gael i'w defnyddio 24 awr y diwrnod.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Disgwyllir aerdymheru ar y lefel hon.

Hygyrchedd	Mae defnyddio rheiddiaduron y gellir eu rheoli â thermostat yn helpu i reoli eich defnydd o ynni.
-------------------	---

2.6.12 Goleuo

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ystafelloedd gwely wedi eu goleuo'n dda. Mae bwlb golau rhad-ar-ynni yn dderbyniol. • Darperir cysgodlen neu orchudd i bob bwlb, oni bai eu bod yn fylbiau addurniadol. • O leiaf un golau'n cael ei reoli o'r drws. • Golau darllen wrth ochr y gwely ar gyfer pob unigolyn, y gellir ei reoli o'r gwely, yn ogystal â'r golau sy'n cael ei reoli o'r drws. • Fodd bynnag, mewn ystafell dau wely gellir cael un golau ochr gwely yn y canol i'w rannu.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cryfder da i'r golau ac ystyriaeth wedi'i rhoi i awyrgylch a dewisiadau goleuo amrywiol. • Golau penodol yn cael ei ddarparu i oleuo'r ddesg ysgrifennu.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lefelau goleuo gwell, gyda'r goleuadau wedi'u lleoli'n dda ac yn hawdd i'w defnyddio, gan gynnwys goleuadau penodol ar gyfer y cyntedd, y cwpwrdd dillad, y man bwyta a'r man eistedd yn gyfforddus. • Goleuadau'r ystafell yn rhai y gellir eu rheoli o ochr y gwely.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lefelau goleuo rhagorol ag ystod o ddewisiadau y gellir eu rheoli ar wahân.

Hygyrchedd	Sicrhau bod modd addasu cryfder goleuadau gan ddefnyddio switsh pylu a/neu ddarparu lampau ychwanegol wrth ochr gwely neu ar y bwrdd ysgrifennu.
Cynaliadwyedd	Dylid gwneud mwy o ddefnydd o fylbiau golau rhad-ar-ynni drwy'r gwesty. Gellir gwneud mwy o ddefnydd o olau naturiol hefyd. Gellid defnyddio arwyddion i ofyn i westeion ddiffodd goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

2.6.13 Ffenestri

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Pob Lefel Sêr	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un ffenestr y gellir ei hagog yn ddiogel ac sy'n darparu lefelau da o olau naturiol uniongyrchol ac awyriad. Ffenestri wedi eu gosod yn dda, yn hawdd i'w hagog a'u cau ac yn aros ar agor. Polyn yn cael ei ddarparu er mwyn agor unrhyw ffenestri Velux neu ffenestri to. • Yn gyffredinol, nid yw ystafelloedd heb ffenestri yn dderbyniol (fodd bynnag, gellid caniatáu eithriad ar gyfer ystafelloedd penodol). • Ffitiadau diogelwch wedi'u gosod ar bob ffenestr ystafell wely y gallai rhywun ddod i mewn i'r ystafell drwyddi pan fo ar agor, e.e. drysau patio a ffenestri ger diangfeydd tân. • Mae'n dderbyniol i ystafell wely edrych allan dros gyntedd mewnol mawr. Dylai'r ystafelloedd gwely fod â system aerdymheru a golau naturiol. • Darperir system aerdymheru lle na ellir agor ffenestri.

Hygyrchedd	Sicrhau bod eich gwesteion yn gallu cyrraedd ffenestri a llenni a'u bod yn hawdd i'w hagog a'u cau.
-------------------	---

2.6.14 Gorchuddion Ffenestri

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Darperir llenni na ellir gweld trwyddynt, bleinds neu gaedau ar bob ffenestr ac, yn ddelfrydol, ar ddrysau sydd â phaneli gwyr, ffenestri linter a ffenestri to er mwyn i westeion gael preifatrwydd ac er mwyn atal unrhyw olau rhag dod i mewn i'r ystafell o'r tu allan. Pob gorchudd ffenestr i gael ei osod neu ei hongian yn briodol. • Llenni yn ddigon mawr i gau'n rhwydd ac yn gyfan gwbl dros led ac uchder y ffenestr gyda leinin neu heb leinin. • Mewn ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod, darparu mwy o breifatrwydd drwy gyfrwng llenni net neu fleind.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gorchuddion ffenestri o ansawdd a chyflwr da. Llenni, os ydynt yn cael eu defnyddio, yn sylweddol, wedi eu leinio'n llawn, â digon o lawnder a lled. • Gorchuddion ffenestri'n cau pob golau allan mewn ystafelloedd gwesty lle mae hynny'n un o anghenion penodol y farchnad, fel gwestai yng nghanol dinasoedd sydd â llawer o olau allanol a gwestai meysydd awyr â gwesteion ar gylchfaoedd amser gwahanol.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gorchuddion ffenestri o ansawdd a chyflwr arbennig o dda.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddiau gorchuddion ffenestri o ansawdd rhagorol. Gorchuddion ffenestri'n cau pob golau allan.

2.6.15 Lloriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob gorchudd llawr, carped, mat, llawr pren caled ac ati wedi'i osod yn briodol ac o ansawdd a chyflwr derbyniol.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gorchudd lloriau o ansawdd a chyflwr da ym mhobman.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gorchudd lloriau o ansawdd a chyflwr arbennig ym mhobman.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gorchudd lloriau o ansawdd a chyflwr rhagorol ym mhobman.

Hygyrchedd	Osgoi carpedi peil dwfn a allai achosi i rywun faglu neu sy'n creu anawsterau i ddefnyddwyr cadair olwyn.
-------------------	---

2.6.16 Celfi, Dodrefn Meddal a Ffitiadau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl gelfi, dodrefn meddal a ffitiadau yn dderbyniol, o ran pa mor rhwydd ydynt i'w defnyddio, ac o ansawdd a chyflwr derbyniol.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl gelfi, dodrefn meddal a ffitiadau yn dda, o ran pa mor rhwydd ydynt i'w defnyddio, ac o ansawdd a chyflwr da.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl gelfi, dodrefn meddal a ffitiadau yn dda iawn, o ran pa mor rhwydd ydynt i'w defnyddio, ac o ansawdd a chyflwr arbennig.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl gelfi, llenni, dodrefn meddal a ffitiadau yn rhagorol, o ran pa mor rhwydd ydynt i'w defnyddio, ac o ansawdd a chyflwr rhagorol. <i>D.S.</i> • Mae celfi'n cynnwys byrddau, lle storio bagiau a dillad, seddi ac ati. • Mae dodrefn meddal yn cynnwys clustogau ac ati. • Mae ffitiadau'n cynnwys drychau, ffitiadau golau, cyfarpar gwresogi, cysgodlenni ac ati.

2.6.17 Byrddau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd ysgrifennu neu wrthrych tebyg, fel arwyneb gwastad sylweddol neu ddesg sy'n darparu digon o le gwag ar gyfer defnydd ymarferol â drych gerllaw. • Y golau'n ddigonol i'r defnydd. • Soced drydan 13 amp wrth gefn wedi'i gosod mewn man cyfleus. • Bwrdd ochr gwely neu wrthrych tebyg wedi'i ddarparu ar gyfer pob unigolyn. Gall dau wely sengl rannu un bwrdd ochr gwely. <p><i>D.S. Nid yw cadair yn dderbyniol yn lle bwrdd ochr gwely.</i></p>
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd ysgrifennu neu wrthrych tebyg â lle gwag oddi tano fel bod gwesteion yn gallu ei ddefnyddio'n rhwydd. • Darperir golau'n benodol i oleuo'r bwrdd ysgrifennu.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd ysgrifennu neu wrthrych tebyg yn darparu digonedd o le gwag da iawn. • Byrddau achlysurol/bwyd o uchder priodol ar gyfer bwyta – oni bai fod troliau'n cael eu defnyddio.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd ysgrifennu sylweddol â lle gwag rhagorol. • Nifer o socedi trydan, yn aml â socedi rhyngwladol/addaswyr, gan ddibynnu ar angen y farchnad.

2.6.18 Lle i Gadw Dillad a Bagiau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cwprdd dillad neu le i hongian dillad. <i>D.S. Mae alcof yn dderbyniol ond nid yw bachau ar waliau neu y tu ôl i ddrysau'n dderbyniol.</i> • Lle derbyniol mewn droriau neu ar silffoedd. Droriau'n agor a chau'n rhwydd ac wedi eu leinio neu ag arwyneb mewnol y gellir ei sychu'n rhwydd â chadach. • Maint y lle cadw dillad a ddarperir yn addas ar gyfer y math o westy a nifer y gwesteion yn yr ystafell. • Digon o gambrenni i hongian dillad (nid rhai gwifren).
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lle pwrpasol i ddadbacio – stand y gellir ei symud efallai neu arwyneb gwastad uwch.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae alcof yn dderbyniol, ond dim ond os yw wedi'i leoli yn y fynedfa neu'r cyntedd. • Dewis da o gambrenni hongian dillad o ansawdd da.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cwprdd dillad gosodedig neu annibynnol. <i>D.S. Nid yw alcof agored yn dderbyniol. Llauer o le i gadw dillad.</i> • Ystod eang o gambrenni hongian dillad o ansawdd rhagorol yn cael eu darparu. • Disgwyilir golau y tu mewn i'r cwprdd dillad. • Sêff i'w darparu yn yr ystafell.

2.6.19 Cadeiriau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Sengl – un gadair. Dwbl/dau wely – dwy gadair neu un gadair ac un stôl. • Y cadeiriau a ddarperir yn briodol i arddull a maint yr ystafell.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Sengl – un gadair esmwyth. Os hon yw'r unig gadair, dylid ystyried pa mor rhwydd yw hi i'w defnyddio wrth y bwrdd ysgrifennu, neu ddarparu cadair ychwanegol. • Dwbl/dau wely – dwy gadair esmwyth neu un gadair esmwyth ac un stôl wedi ei gorchuddio â defnydd. <i>D.S. Mae cadair esmwyth yn cynnig mwy o gyfforddusrwydd – un wedi ei gorchuddio â defnydd neu o ddeunydd arall o ansawdd da.</i>
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dwbl/Dau wely – dwy gadair esmwyth (nid yw stolion yn dderbyniol). • Os yw cwsmeriaid y gwesty'n gleientiaid busnes yn bennaf, gellid rhoi cadair sylweddol wrth y ddesg yn lle'r ail gadair esmwyth. • Cadeiriau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer bwyta pan ddarperir gwasanaeth ystafell o arddull ac uchder priodol.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cwprdd dillad gosodedig neu annibynnol. <i>D.S. Nid yw alcofau'n dderbyniol. Llauer o le i gadw dillad.</i> • Ystod eang o gambrenni hongian dillad o ansawdd rhagorol yn cael eu darparu. • Disgwylir golau y tu mewn i'r cwprdd dillad. • Sêff i'w darparu yn yr ystafell.

2.6.20 Drychau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un drych yn yr ystafell wely. • Os nad oes ond un drych dylai fod yn ddrych hir a dylai gael ei osod ger y bwrdd ysgrifennu neu arwyneb tebyg. Mae drych hir yn ddrych o faint addas ac mewn lleoliad cyfleus i westeion allu gweld y rhan fwyaf ohonynt eu hunain o'u corun i'w sawdl.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf ddau ddrych yn yr ystafell wely. Rhaid i un ohonynt fod yn ddrych hir a dylai'r llall fod wedi'i osod wrth y bwrdd.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren

2.6.21 Cyfleusterau gwneud Te/Coffi

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleusterau gwneud te/coffi ar gael ac o fewn cyrraedd rhwydd 24 awr y diwrnod yn yr ystafelloedd gwely neu mewn mannau cyhoeddus (Hunanwasanaeth/Peiriannau gwerthu mewn mannau cyhoeddus yn dderbyniol). • Os darperir gwasanaeth ystafell yn unig, dylid hysbysu'r gwesteion bod modd cael hambwrdd lletygarwch heb dâl ychwanegol. • Cynhwysion hunanwasanaeth ar gyfer gwneud diodydd poeth yn cael eu cadw mewn pcedi neu mewn cynwysyddion â chaead. • Ni ddylai gwesteion orfod defnyddio tegelli ystafelloedd gwely ar y llawr.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel un seren, ond mae'n debyg y darperir ystod ehangach o ddiodydd poeth e.e. dewis o wahanol fathau o de, a diodydd eraill fel siocled poeth, a bisgedi. • Llaeth ffres ar gael ar gais.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Yn ogystal â gwasanaeth ystafell 24 awr y diwrnod, hysbysu gwesteion bod modd cael hambwrdd lletygarwch, os nad oes un yn cael ei ddarparu.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Y cyfleusterau yn yr ystafell, lle bônt yn cael eu darparu, o safon ragorol, e.e. cwpanau a thebot tsieina, dewis o ddiodydd poeth gan gynnwys mathau arbenigol o de, llaeth ffres, a choffi mâl ffres. • Efallai y bydd peiriannau coffi pwrpasol mewn ystafell.

Hygyrchedd	Sicrhau bod hambyrddau lletygarwch ar uchder addas i'r holl westeion. Dylai tegelli fod yn rhai diwifr a dylai amrywiaeth o gwpanau/mygiau gael eu darparu neu fod ar gael ar gais.
-------------------	---

Cynaliadwyedd	Nid oes angen i eitemau ar hambyrddau lletygarwch, fel siwgr a bisgedi, fod wedi eu lapio'n unigol – gellir defnyddio cynwysyddion aerglos ar gyfer nwyddau sych, a lle bynnag y bo modd, gellid prynu nwyddau wedi eu cynhyrchu'n lleol neu gynnyrch Masnach Deg. Bydd aseswyr yn edrych ar ansawdd y cynnwys ac arddull y cyflwyniad.
----------------------	---

2.6.22 Adloniant yn yr Ystafelloedd

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Teledu digidol ar gael ym mhob ystafell wely. • Pob sianel sydd ar gael wedi ei thiwnio'n briodol. • Gall setiau teledu gael eu gosod yn ddiogel ar fraced wal. Dylid ystyried pa mor rhwydd yw hi i weld y sgrin a diogelwch wrth benderfynu ar leoliad y teledu. • Lle defnyddir cloc-radio, dylid darparu cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r cloc a'i osod ar yr amser cywir.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwesteion yn gallu gwyllo'r teledu'n gyfforddus o gadair ac o'r gwely. • Radio'n cael ei darparu ym mhob ystafell wely – o bosibl yn rhan o osodiad teledu.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Setiau teledu â sgriniau o faint da – mwy na 61cm (24 modfedd). • Amrywiaeth eang o sianeli teledu ar gael. • Amrywiaeth o sianeli radio ar gael. • Dewisiadau clywedol ychwanegol yn cael eu darparu, e.e. sianeli mewnol, chwaraewr CD, llyfrgell DVDs, teledu lloeren/cebl, PlayStation, iPod ac ati.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir y bydd y datblygiadau diweddaraf mewn technoleg adloniant wedi cael eu mabwysiadu.

Hygyrchedd	Sicrhau bod setiau teledu'n gallu darparu isdeitlau (Teletestun tudalen 888, digidol (DVB), isdeitlau Sky), er budd gwesteion sydd â nam ar eu clyw a gwesteion sy'n siarad iaith dramor.
-------------------	---

2.6.23 Cyfathrebu a Gwasanaethau Busnes

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ffôn yn yr ystafell wely'n ddewisol. • Lle na ddarperir ffôn, rhaid darparu dull o gyfathrebu â staff yn y nos pe bai argyfwng, a rhoi gwybodaeth am hynny yn yr ystafell wely. • Ffonau, lle maent yn cael eu darparu, yn arddangos rhif ffôn y gwesty ynghyd â rhif estyniad neu rif ffôn yr ystafell wely. • Ffonau, lle maent yn cael eu darparu, â chyfarwyddiadau ynglŷn â sut i ddefnyddio unrhyw wasanaethau ychwanegol fel gwasanaeth negeseuon ffôn, a galwadau o un ystafell i un arall.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Darperir system ffôn fewnol. • Argymhellir cysylltiad Wi-Fi a/neu gysylltiad â'r rhyngwyd. Os codir tâl am hyn, rhaid nodi hynny'n glir cyn i'r archeb gael ei gwneud.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Darperir system ffôn deialu uniongyrchol. • Darperir cysylltiad Wi-Fi a/neu gysylltiad â'r rhyngwyd. Os codir tâl am hyn, rhaid nodi hynny'n glir cyn i'r archeb gael ei gwneud. • Darperir llyfr nodiadau â beiro neu bensel.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf ddau ffôn deialu uniongyrchol os ydynt yn rhai gosodedig – un wrth ochr y gwely ac un ar y ddesg/bwrdd ysgrifennu. Un ffôn diwifr yn dderbyniol. • Gwesteion yn gallu galw adrannau unigol yn y gwesty yn uniongyrchol. • Darperir cysylltiad Wi-Fi a/neu gysylltiad rhyngwyd. Os codir tâl am hyn, rhaid nodi hynny'n glir cyn i'r archeb gael ei gwneud. Technoleg gyfathrebu ragorol yn yr ystafell â'r cysylltiad gorau sydd ar gael a chefnogaeth dda i ddatrys unrhyw broblemau.

Hygyrchedd	Darparu ffôn testun, e.e. minicom mewn o leiaf un ystafell wely, er budd gwesteion hollol fyddar.
-------------------	---

2.6.24 Taliadau Ffôn

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Pob Lefel Sêr	<ul style="list-style-type: none"> Lle darperir ffonau, cerdyn prisiau'n cael ei arddangos yn yr ystafelloedd gwely yn dangos y taliadau arferol am alwadau lleol, pell a rhyngwladol, defnyddio'r rhynggrwyd, defnyddio cerdyn ffôn a chysylltu â ffonau symudol. Enghraifft o daliadau ffôn yn ofynnol, ond nid fesul uned.

2.6.25 Sychwyr gwallt

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> Darperir sychwr gwallt ym mhob ystafell wely.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> Sychwr gwallt o ansawdd arbennig. Weithiau gwelir sythwyr gwallt yn cael eu darparu.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> Sychwr gwallt o ansawdd rhagorol (heb fod yn osodedig).

2.6.26 Gwybodaeth yn yr ystafell

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau a chyfleusterau'r gwesty'n cael eu hysbysebu ym mhob ystafell wely (o bosibl mewn ffolder wybodaeth yn yr ystafell neu drwy dechnoleg yn yr ystafell). Dylai hyn gynnwys y canlynol lle bônt yn berthnasol: <ul style="list-style-type: none"> Sut i alw am gymorth mewn argyfwng yn y nos. Amser bwyd (a bwydlenni). Hysbysebu bod haearn smwddio a bwrdd smwddio ar gael, os nad ydynt yn cael eu darparu'n barod yn yr ystafell wely. Gwybodaeth amlieithog neu symbolau/diagramau i egluro'r trefniadau argyfwng yn cael eu harddangos yn glir ym mhob ystafell wely.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth am wasanaethau ffôn e.e. taliadau, rhestr o rifau mewnol, gwasanaethau lleol. Bwydlen gwasanaeth ystafell. Gwasanaeth cymryd negeseuon. Gwybodaeth am wasanaeth golchi dillad, os yw'n cael ei gynnig. Hysbysiadau 'Peidiwch â tharfu' i westeion eu defnyddio.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> Fel Tair Seren, a rhestr fwy cynhwysfawr o rifau i westeion.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth am wasanaeth golchi/presio/sychlanhau dillad. Ystyried deunydd amlieithog a haws i'w gweld.

Hygyrchedd	<p>Sicrhau bod yr holl wybodaeth mewn print clir ar uchder addas i'r holl westeion. Ystyried darparu hysbysiadau ar y drws ar gyfer gwesteion sydd â nam ar eu clyw fel rhan o'ch trefniadau ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng.</p> <p>Cynnwys copi o'ch Datganiad Hygyrchedd â gwybodaeth yn yr ystafell.</p>
-------------------	---

Cynaliadwyedd	<p>Gallai pob ystafell gynnwys, lle bo modd, ffolder wybodaeth gyfredol i ymwelwyr. Gallai ffolderi gwybodaeth i ymwelwyr gynnwys:</p> <p>Manylion am siopau cyfagos sy'n gwerthu bwyd, diod ac anrhegion lleol.</p> <p>Gwybodaeth am atyniadau lleol i ymwelwyr.</p> <p>Gwybodaeth am dreftadaeth a diwylliant lleol, gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau arbennig.</p> <p>Dewisiadau ar gyfer teithio heb gar, e.e. llwybrau cerdded a beicio, amserlenni cludiant cyhoeddus a rhifau cyswllt.</p> <p>Awgrymiadau o leoedd i fynd am dro iddynt heb gar.</p> <p>Polisi amgylcheddol y gwesty, os oes un, neu fanylion am unrhyw gynllun gwyrdd y mae'n gysylltiedig ag ef.</p> <p>Os yw'r busnes yn rhan o gynllun taliad gwirfoddol gan ymwelwyr, dylid cynnwys gwybodaeth am y cynllun hwn hefyd.</p> <p>Gellid defnyddio hysbysiadau i ofyn i westeion ddiffodd pob cyfarpar trydanol yn llwyr pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, yn hytrach na'u gadael yn y modd segur. Gellid hyfforddi staff hefyd i ddiffodd y botwm 'standby' wrth lanhau'r ystafell os yw'r gwesteion wedi ei adael ymlaen.</p>
----------------------	--

2.6.27 Amrywiol

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Basged sbwriel – nad yw'n debygol o fynd ar dân os caniateir smygu. • Un gwydryn dŵr yfed i bob gwestai – gwydr, plastig heb grafiadau neu un wedi'i lapio y gellir ei daflu ymaith ar ôl ei ddefnyddio unwaith. • Blwch llwch os caniateir smygu. • Digon o socedi trydan a'r rheini wedi eu gosod mewn llefydd cyfleus i allu defnyddio'r holl gyfarpar trydanol a ddarperir yn ddiogel.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Gwydr yfed o ansawdd da ar gyfer pob gwestai.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Sêff yn yr ystafell. • Hambwrdd/darpariaeth gofalu am ddillad. • Gallai gynnwys ymbarél.

2.7 Ystafelloedd Ymolchi a Chawod En-Suite a Chyfleusterau Preifat

2.7.1 Darpariaeth

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely i fod ag ystafell ymolchi neu ystafell gawod en-suite neu gyfleusterau preifat, sydd i gyd â thoiled a bath neu gawod. • Mae cyfleuster preifat yn un sydd wedi'i ddynodi ar gyfer defnyddwyr un ystafell wely yn unig. Bydd wedi'i lleoli yn agos at yr ystafell wely, ar yr un llawr, a gellir ei gloi ag allwedd a ddarperir (hysbysir gwesteion ynglŷn â hyn pan fyddant yn archebu ystafell). • Nid yw mynediad at ystafelloedd ymolchi neu doiledau preifat, nac ystafelloedd ymolchi cyhoeddus ychwanegol, o ystafelloedd gwely drwy fannau cyhoeddus fel derbynfa neu lolfa ac ati yn dderbyniol. • Basn ymolchi â thap dŵr poeth ac oer sydd â'i thu mewn yn mesur o leiaf 36 x 24cm (14 x 9.5 modfedd). Basn yn cael ei darparu yn yr ystafell wely, yn yr ystafell en-suite neu yn y cyfleuster preifat. <i>D.S. Mewn cyfleuster en-suite mae'r bath neu'r gawod a'r thoiled wedi'u lleoli mewn ystafell(oedd) â drws/drysau ar wahân i'r ystafell wely. Nid yw cawodydd yn yr ystafell wely'n dderbyniol fel arfer.</i>
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely i fod ag ystafell ymolchi neu ystafell gawod en-suite sydd â thoiled a bath a/neu gawod. • Basn ymolchi maint llawn. Lle bo wedi'i lleoli yn yr ystafell ymolchi, mae'n debygol o fod mewn uned ymolchi sy'n cyfateb i ansawdd Tair Seren.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely i fod ag ystafell ymolchi neu ystafell gawod en-suite. Pob en-suite â thoiled a chawod sy'n cael ei rheoli â thermostat. • Lle nad oes bath, rhaid i ansawdd ffitiadau'r gawod, gwasgedd y dŵr, y gofod ac ati fod o safon ragorol i wneud iawn am y ffaith nad oes bath.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely i fod â chyfleusterau en-suite â thoiled, bath a chawod sy'n cael ei rheoli â thermostat. • Gall hyd at 20% o'r ystafelloedd gwely fod ag ystafelloedd cawod yn unig, os ydynt o faint ac ansawdd eithriadol.

2.7.2 Ansawdd Cyffredinol (Yn Berthnasol i Ystafelloedd Ymolchi ac Ystafelloedd Cawod o Bob Math)

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely o ansawdd a chyflwr derbyniol â ffitiadau, lloriau ac addurniadau ymarferol sy'n eu gwneud yn hawdd i'w defnyddio. • Lloriau ymarferol, wedi'u gosod yn dda ac yn hawdd i'w glanhau. • Ymarfer gorau'n awgrymu bod lloriau y gellir eu golchi'n fwy hylan na charped. • Rhoddir sylw penodol i gynnal a chadw a lefelau goleuadau.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell ymolchi o ansawdd a chyflwr da, yn hwylus i'w defnyddio, ac yn cynnwys ffitiadau, lloriau ac addurniadau sy'n cydweddu'n dda.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely o ansawdd a chyflwr arbennig, yn hwylus i'w defnyddio, ac yn cynnwys ffitiadau, lloriau ac addurniadau o safon arbennig.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pob ystafell wely o ansawdd a chyflwr rhagorol, yn arbennig o hwylus i'w defnyddio, ac yn cynnwys ffitiadau, lloriau ac addurniadau o safon foethus.

2.7.3 Maint Ystafelloedd

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ystafelloedd ymolchi o faint digonol sy'n sicrhau digon o gyffordduswydd i westeion ac sy'n hawdd i'w defnyddio.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ystafelloedd ymolchi yn fwy ac â thipyn o le gwag.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ystafelloedd ymolchi helaeth â bath, basn a chawod mwy nag arfer. • Gwelir cawod ar wahân y gellir cerdded i mewn iddi yn aml ar y lefel hon.

2.7.4 Cyflenwad Dŵr

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Digon o ddŵr poeth yn cael ei ddarparu ar bob adeg resymol – fel arfer rhwng 7am a 10pm. • Baths a chawodydd yn darparu llif cryf o ddŵr y gellir ei addasu'n rhwydd.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Digon o ddŵr poeth ar gael 24 awr y diwrnod.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Tair Seren

Hygyrchedd	Dylai pob cyflenwad dŵr poeth gael falf gymysgu ym mhob ffitiad, wedi'i rheoli ar uchafswm o 41 gradd C rhag llosgi.
-------------------	--

Cynaliadwyedd	Defnyddio gosodiadau y gellir eu rheoli â thermostat ar gyfer dŵr poeth.
----------------------	--

2.7.5 Cyfarpar ar gyfer Cyfleusterau En-Suite a Phreifat

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Pob Lefel Sêr	<p>Pob ystafell ymolchi neu ystafell gawod – preifat ac en-suite – yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Clo neu foltt ar yr ochr fewn ym mhob ystafell ymolchi neu ystafell gawod breifat (ddim yn angenrheidiol ar gyfer cyfleusterau en-suite). • Drych wedi'i osod uwchben neu wrth y basn ymolchi. • Bath neu gawod, basn ymolchi a drych. • Digon o le storio a lle i bethau ymolchi'r gwesteion eu hunain. • Bachyn ar gyfer dillad. • Arwyneb gwrth-lithr neu fat i'w ddefnyddio mewn bath neu gawod. • Rheilen dyweli neu eitem sy'n cyfateb i hynny sy'n ddigon mawr ar gyfer nifer y gwesteion yn yr ystafell. • Soced eilliwr trydan mewn lleoliad cyfleus, â'r foltedd wedi'i nodi, neu addasydd i'w ddefnyddio yn yr ystafell wely. • Llenni, bleinds neu gaeadau wedi'u gosod ar y ffenestri er mwyn sicrhau preifatrwydd. • Gorchuddion ffenestri (efallai na fydd eu hangen ar gyfer ffenestri Velux) wedi'u gosod yn y nenfwd er mwyn sicrhau nad oes modd i neb weld i mewn. <p>Pob tŷ bach yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Toiled â chaead. • Papur toiled a rhywbeth i'w ddal ynghyd â rholyn wrth gefn. • Bin â chaead i waredu eitemau ystafell ymolchi a bagiau tyweli misglwyf.
Hygyrchedd	<p>Darparu detholiad o gyfarpar fel seddi bath, cyfarpar i godi uchder sedd toiled a chadeiriau cawod. Darparu rheilen gynnal ger atodiadau'r gawod.</p>
Cynaliadwyedd	<p>Gellid defnyddio dyfeisiau arbed dŵr fel 'Hippos' mewn seston toiled.</p> <p>Nid oes angen i sebon a chynnyrch eraill sy'n cael eu darparu fod wedi eu lapio'n unigol – gellir cyflwyno'r rhain mewn teclynnau deniadol addas. Bydd aseswyr yn asesu ansawdd y cynnyrch sy'n cael eu cynnig a'r dull cyflwyno.</p> <p>Nid oes angen i'r cwpan/gwydr yfed wrth gefn fod yn un plastig, na chael ei lapio.</p> <p>Er bod cyfleusterau cawod yn gallu defnyddio llai o ddŵr, cofiwch fod cawodydd pŵer yn gallu defnyddio mwy o ddŵr na bath. Felly, dylid ystyried defnyddio pennau cawod sydd â llai o lif neu gawodydd sy'n dibynnu ar ddisgyrchiant lle bo modd.</p>

2.7.6 Goleuo, Gwresogi ac Awyru

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Goleuo: golau digonol â gorchudd drosto ym mhob ystafell ymolchi, ystafell gawod a thoiled. Golau'n cael ei ddarparu uwchben neu yn ymyl drych y basn ymolchi. • Gwresogi: gwres digonol. Nid yw bylbiau goleuo a gwresogi'n dderbyniol. Mae angen gwresogydd pwrpasol ym mhob ystafell ymolchi sydd â ffenestr allanol. Mae rheilen dyweli wedi'i gwresogi yn dderbyniol. • Awyru: awyriad ac echdyniad digonol (ffenestr neu ffan echdynnu). Os ffenestr Velux neu ffenestr do yw'r unig fath o awyriad, dylid darparu polyn neu ddull arall ar gyfer agor. Mae angen gorchudd na ellir gweld drwyddo dros y ffenestr (gweler uchod dan 2.7.5). • Ffitiadau diogelwch wedi'u gosod ar unrhyw ffenestr ystafell ymolchi a allai gael ei gadael ar agor ac y gellid dod i mewn i'r ystafell drwyddi, e.e. ffenestri ger diangfeydd tân.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Golau, gwres, awyriad ac echdyniad da.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Rheilen dyweli wedi'i gwresogi neu gyfarpar tebyg (â switsh ymlaen/i ffwrdd) yn gweithio drwy gydol y flwyddyn, neu ryw ffordd o ddarparu rhagor o dyweli sych i westeion ar gais.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cryfder golau rhagorol yn gyffredinol, yn enwedig wrth y drych. • Gwres, awyriad ac echdyniad rhagorol.

Cynaliadwyedd	Mae defnyddio rheiddiaduron y gellir eu rheoli â thermostat yn helpu i reoli faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio.
----------------------	--

2.7.7 Tyweli a Phethau Ymolchi

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu tywel dwylo a thywel bath cotwm, glân, sy'n amsugno gwlybanaeth ar gyfer pob gwstai newydd, a'u newid bob diwrnod, ac eithrio lle bo gwsteion, fel rhan o bolisi amgylcheddol sy'n cael ei hysbysebu, yn cytuno i newid tyweli'n llai aml yn ystod eu harhosiad. • Mat bath (nid yw matiau papur yn dderbyniol). • Darparu sebon ffres bob tro y mae'r ystafell yn cael ei gosod i westeion newydd. Rhoi sylw penodol i lendid a hylendid peiriannau sebon hylif os ydynt yn cael eu darparu.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Tyweli mawr, sy'n cydweddu o ran lliw, ac sydd o ansawdd a chyflwr da. • Sebon, siampw a gel cawod/bath o ansawdd da'n cael eu darparu. • Pethau ymolchi ar gael rhag ofn y bydd rhywun wedi eu hanghofio, e.e. brws dannedd a rasel i'w defnyddio unwaith, am dâl o bosibl.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Pethau ymolchi amrywiol o ansawdd arbennig ar gyfer gwsteion.

Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Tyweli amrywiol, yn cynnwys tyweli bath, gynau a gwlanenni ymolchi o ansawdd a chyflwr rhagorol. • Amrywiaeth rhagorol o bethau ymolchi moethus i westeion.
------------------	--

Hygyrchedd	Darparu tyweli o liw gwrthgyferbyniol i'r waliau a'r llawr er mwyn helpu gwesteion sydd â nam ar eu golwg.
-------------------	--

Cynaliadwyedd	Gellid defnyddio arwyddion cytundeb tyweli.
----------------------	---

2.8 Mannau Cyhoeddus

2.8.1 Ansawdd Cyffredinol: Pob Man Cyhoeddus (Barrau, Lolfeydd, y Dderbynfa, Tai Bwyta ac ati)

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dodrefn meddal, ffitiadau ac addurniadau o ansawdd a chyflwr derbyniol. • Gofod a chyfforddusrwydd derbyniol i westeion, o'i gymharu â nifer yr ystafelloedd gwely. • Argymhellir Wi-Fi mewn mannau cyhoeddus.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dodrefn meddal, ffitiadau ac addurniadau o ansawdd a chyflwr da. • Gofod a chyfforddusrwydd da i westeion, a rhai nad ydynt yn aros yn y gwesty, yn cynnwys mannau eistedd ar wahân o bosibl a dewis o wahanol fathau o fannau eistedd. • Wi-Fi i'w ddarparu mewn mannau cyhoeddus (caniateir eithriadau ar gyfer eiddo gwledig lle nad oes gwasanaeth rhyngwyd).
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dodrefn meddal, ffitiadau ac addurniadau o ansawdd a chyflwr arbennig. • Gofod a chyfforddusrwydd da iawn i westeion, yn ystyried anghenion gwahanol farchnadoedd (e.e. busnes neu hamdden).
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dodrefn meddal, ffitiadau ac addurniadau o ansawdd a chyflwr rhagorol, yn darparu safon gyffredinol foethus. • Dewis o amgylcheddau sy'n ddigon mawr i roi llawer o ofod personol. • Cyfleusterau ychwanegol fel lle bwyta arall, cyfleusterau hamdden, canolfan fusnes, sba.
Cynaliadwyedd	Addurniadau – gellid defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiau a/neu ffotograffau o ddelweddau sy'n cyfleu golygfeydd lleol a delweddau sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth – mae'r cyfan yn ychwanegu at naws arbennig gwahanol leoedd.

2.8.2 Goleuo, Gwresogi ac Awyru

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> Lefelau derbyniol o olau wedi'u lleoli'n briodol ar gyfer diogelwch a chyffordduswydd ym mhob man cyhoeddus, gan gynnwys digon o olau ar risiau a phen grisiau yn y nos. Lefelau gwresogi ac awyru da, yn darparu tymheredd amgylchynol a llif aer digonol drwy'r flwyddyn.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> Lefelau goleuo da ac ystyriaeth wedi'i rhoi i gryfder y goleuadau ac i'w lleoliad e.e. er mwyn darllen bwydlenni.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> Goleuadau arbennig, yn rhoi digon o olau ar gyfer pob diben ymarferol ac wedi'u cynllunio hefyd i greu effaith dda ac arddangos nodweddion.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> Golau rhagorol. Dull rhagorol o reoli tymheredd, a allai gynnwys aerdymheru.

Cynaliadwyedd	<p>Goleuo – dylid gwneud mwy o ddefnydd o fylbiau golau rhad-ar-ynni ym mhob rhan o'r gwesty. Gellir gwneud mwy o ddefnydd o olau naturiol hefyd.</p> <p>Gwresogi – bydd gwell inswleiddio a mwy o ddefnydd o wresogyddion y gellir eu rheoli â thermostat a gwresogi ardaloedd penodol yn arbed ynni.</p>
----------------------	--

2.8.3 Y Dderbynfa/Cyntedd

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> Man derbyn wedi'i ddynodi'n glir. Mae lle wedi'i ddynodi'n glir yn un pen o gownter y bar yn dderbyniol. Darperir cloch neu ffôn mewnol i alw am sylw'r staff pan nad ydynt yn bresennol.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> Derbynfa benodol â desg, cownter neu fwrdd, oni bai fod trefniadau amgen, sy'n cael eu rheoli'n dda, yn bodoli er mwyn cofrestru gwesteion yn y lolfa neu yn ystafell wely'r gwestai. Digon o le i westeion sy'n cyrraedd gyda bagiau.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o ofod a chyffordduswydd (gan gynnwys lle eistedd) i westeion sy'n cyrraedd ac yn ymadael.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> Yn gyffredinol, derbynfa wedi'i dynodi'n glir â chyntedd neu fynedfa drawiadol, ond efallai na fydd hyn yn berthnasol mewn gwestai trefol.

Hygyrchedd	<p>Darparu man wedi'i oleuo'n dda, heb ormod o bethau o gwmpas, fel bod modd mynd at y dderbynfa'n rhwydd. Dylid darparu cadeiriau i westeion hefyd.</p> <p>Bydd dolen sain neu glipfwrdd a beiro o gymorth er mwyn cyfathrebu â gwesteion sydd â nam ar eu clyw.</p>
-------------------	---

2.8.4 Barrau, Lolfeydd, Mannau Eistedd a Thai Bwyta

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Bar neu lolfa â digon o le eistedd cyfforddus i westeion preswyl ar agor drwy'r dydd a gyda'r nos – o leiaf rhwng amser brecwast a 10pm. • Y bar a'r lolfa wedi'u cyfuno o bosibl ac yn darparu'r unig le eistedd ym manau cyhoeddus y gwesty. • Ni ddylid disgwyl i westeion rannu byrddau yn y tŷ bwyta.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu rhagor o seddi lle mae'r farchnad yn galw amdanynt, e.e. mewn gwystai gwyliau, hamdden a busnes, a lle bo pobl nad ydynt yn aros yn y gwesty yn bwyta yn y gwesty neu'n dod i'r bar.
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cadeiriau wedi'u gosod yn addas a chelfi amrywiol sy'n briodol i anghenion mathau penodol o westai e.e. gwystai lle cynhelir cyfarfodydd busnes neu lle cynigir lluniaeth yn y lolfa.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid cael digon o fyrddau bwyta o uchder priodol, yn enwedig amser brecwast, er mwyn osgoi oedi.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd pob man eistedd o ansawdd a chyflwr rhagorol, o faint digonol ac â chyfosodiad wedi'i ddylunio'n dda i ddarparu digon o ofod personol a phreifatrwydd i westeion. • Disgwylir cadeiriau amrywiol. • Y manau eistedd ddim i gyd yn lolfeydd ond yn sicr yn cynnig amgylcheddau amrywiol. • Dylai byrddau tai bwyta fod â digon o le o'u cwmpas i ganiatáu digon o breifatrwydd a digon o le i symud o gwmpas.

Hygyrchedd	Darparu cadeiriau amrywiol: isel, uchel, caled, esmwyth, â breichiau a heb freichiau.
-------------------	---

2.8.5 Mannau Cyhoeddus Eraill gan gynnwys Coridorau a Grisiau

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Coridorau a grisiau mewn cyflwr da a heb rwystrau. • Yn cael eu goleuo'n ddigonol 24 awr y diwrnod. • Rhoddir sylw penodol i gynnal a chadw handlenni drysau, rhifau, eitemau pres a phaneli gwydr. • Arwyddion clir i ddangos y ffordd i'r ystafelloedd gwely a'r dderbynfa (os oes angen).
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Coridorau fel arfer yn llydan a helaeth.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Coridorau a grisiau yn llydan a helaeth ac yn caniatáu digon o le i westeion a throliau gwasanaeth. • Darperir man cadw cotiau â gwasanaeth. Rhoddir derbynneb. • Coridorau a grisiau'n cael eu goleuo'n barhaol.

Hygyrchedd	<p>Darparu sribed o liw gwrthgyferbyniol i'r llawr ar ymyl pob gris neu ar bob newid mewn lefel.</p> <p>Darparu o leiaf un canllaw di-dor ar risiau a lle bo newid mewn lefelau'n digwydd.</p> <p>Darparu arwyddion clir. Gweler y Canllawiau Dylunio Arwyddion yn www.signdesignsociety.co.uk</p>
-------------------	---

2.8.6 Lifftau*

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dewisol. • Cymorth â bagiau ar gael ar gais pan nad oes lifft. *<i>Gellir caniatáu eithriad mewn adeiladau hŷn a/neu adeiladau sydd wedi'u rhestru am resymau pensaernïol lle gellir dangos bod gosod lifft yn anymarferol neu'n annerbyniol i'r awdurdodau cynllunio. Yn yr achos hwn, rhaid cynnig helpu gwesteion â'u bagiau pan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael.</i>
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen lifft pan fo ystafell wely i westeion yn is na llawr y fynedfa neu fwy na thri llawr yn uwch na'r fynedfa, h.y. ar y pedwerydd llawr. • Lle nad oes lifft, dylid nodi hyn yn glir ar adeg archebu'r ystafell.
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen lifft i westeion pan fo ystafell wely i westeion yn is na'r llawr gwaelod neu fwy na dau llawr yn uwch na'r llawr gwaelod, h.y. ar y trydydd llawr.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Ar y lefel hon, nid darparu lifft yw'r unig beth sy'n bwysig. Mae maint, cyfforddusrwydd, ansawdd a chyflymder y lifft yn bwysig hefyd.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir y bydd lifft yn cael ei ddarparu i bob llawr yn y prif adeilad. • Y disgwyliad ar lefel Pum Seren yw lifft ar wahân i wasanaethau gwesty megis bagiau, dillad i'w golchi a gwasanaeth ystafell.

Hygyrchedd	<p>Sicrhau bod modd clywed negeseuon mewn lifftiau a bod y llythrennau a'r rhifau ar y panel rheoli wedi'u codi. Mae drych ar y wal gefn yn helpu defnyddiwr cadair olwyn i ddod i mewn i'r lifft a mynd allan ohono.</p>
-------------------	---

2.8.7 Ffôn Cyhoeddus

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai gwestai allu gwneud galwad ffôn drwy ffôn tŷ, ffôn talu neu ffôn symudol o'r dderbynfa/mannau cyhoeddus ar gais.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

2.8.8 Toiledau mewn Mannau Cyhoeddus

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	Lle bo gwesty ar agor i rai nad ydynt yn aros yno: <ul style="list-style-type: none"> • Cyfleusterau toiled mewn lleoliad sy'n gyfleus i'r manau cyhoeddus. • Toiledau'n cael eu rhannu gan ddynion a merched o bosibl. • Pob toiled yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn cael ei lanhau'n rheolaidd, ei archwilio a'i awyru'n ddigonol. Y cyfleusterau a ganlyn yn ofynnol: basn ymolchi â sebon, cyfleusterau sychu dwylo, sedd â chaead, golau â gorchudd, drych, bachyn ar y drws, bagiau tyweli misglwyf a bin â chaead arno, peth i ddal papur toiled ynghyd â phapur toiled.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Safonau uwch a mwy o le. • Cyfleusterau sychu dwylo effeithlon a digon o ddrychau.
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleusterau ar wahân i ddynion a merched.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer o doiledau moethus â digon o le, ac yn cynnwys eitemau ychwanegol megis tyweli dwylo unigol, pethau ymolchi ac ategolion o safon, yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd iawn yn ystod y dydd.

Hygyrchedd	Darparu rheiliau cynnal priodol wrth wrinalau, toiledau a basnau ymolchi.
-------------------	---

2.9 Mannau Allanol (fel y bo'n berthnasol)

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae manau allanol yn cynnwys ymddangosiad yr adeilad, y tir a'r gerddi, llwybrau a rhodfeydd ac unrhyw leoedd parcio. • Rhoddir sylw penodol i ddiogelwch personol gwsteion a diogelwch eu heiddo mewn meysydd parcio, ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod ac mewn rhandai, gan gynnwys llwybrau allanol a rhodfeydd. • Mae pob agwedd ar y manau hyn yn gwella o ran ansawdd a chyflwr wrth i'r radd Sêr gynyddu. • Dylai mynedfa'r gwesty fod wedi'i dynodi'n glir a dylai'r drws fod wedi'i oleuo pan fo hi'n dywyll. Ceir lefelau digonol o oleuadau ar gyfer diogelwch a chyfforddusrwydd ym mhob man cyhoeddus, gan gynnwys digon o olau ar risiau a phen grisiau yn y nos. • Tir a gerddi'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cael eu cadw'n daclus. • Y manau parcio yn daclus, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, wedi eu diffinio'n glir, a'u goleuo'n dda ac yn rhwydd i'w canfod oherwydd arwyddion clir. • Ystyriaeth wedi'i rhoi i faterion diogelwch.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren

Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mae tir a gerddi yn nodwedd ynddynt eu hunain. Yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn edrych yn arbennig o dda drwy'r flwyddyn.
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Pedair Seren

Hygyrchedd	<p>Darparu lle i gŵn cymorth gael rhedeg yn rhydd ac ati ar dir yr eiddo, neu ddynodi lle o'r fath yn y cyffiniau.</p> <p>Sicrhau nad oes rhwystrau, cerrig, mwsogl, rhew a dail ar y llwybrau a bod yr arwynebau'n gadarn ac mewn cyflwr da. Sicrhau bod unrhyw nodweddion parhaol ar y ffordd yn ddiogel yn eu lle – e.e. potiau blodau a cherfluniau.</p>
-------------------	--

Cynaliadwyedd	<p>Ar gyfer tiroedd, gerddi a libartau, gallai sefydliadau ystyried defnyddio deunyddiau sy'n gydnaws â'r amgylchedd lleol ac â nodweddion ffisegol daearyddiaeth a daeareg yr ardal ac oed yr adeiladau. Ystyried defnyddio mathau lleol o flodau, planhigion ac ati.</p> <p>Os yw'n bosibl, ac os oes maes parcio, dylid darparu man codi a gollwng wedi'i ddynodi'n glir ar gyfer cludiant cyhoeddus, fel tacsis, bysiau a/neu goetsys.</p>
----------------------	--

2.10 Rhandai

Gofynion Mynediad Sylfaenol	
Un Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Lle bo gan westy randy, byddwn yn ystyried y cyfleusterau sy'n cael eu darparu yn y rhandy hwn wrth bennu'r radd ar gyfer y gwesty cyfan. • Gallai llety rhandy fod wedi'i leoli mewn uned neu unedau ar wahân ar dir y gwesty neu o fewn pellter cerdded rhwydd o'r prif adeilad – â lefelau da o olau allanol.
Dwy Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Tair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pedair Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Fel Un Seren
Pum Seren	<ul style="list-style-type: none"> • Mynediad i unrhyw lety sydd ar wahân i'r prif adeilad i fod dan do neu gysgod arall. Gallai hyn gynnwys cludiant â gyrrwr neu hebryngwr ag ymbarél yn cael ei darparu.

3.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ymrwymo i'r Cod Ymddygiad canlynol a chadw ato:

- Cynnal safonau yn ymwneud â gofal gwesteion, glendid, a gwasanaethau sy'n addas i'r busnes.
- Disgrifio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir yn gywir mewn unrhyw hysbyseb, llyfryn neu gyfrwng argraffedig neu electronig arall.

- Esbonio i ymwelwyr yr hyn sy'n gynnwysedig ym mhrys y llety, gan gynnwys trethi ac unrhyw daliadau ychwanegol eraill. Dylid hysbysu ymwelwyr am daliadau ar gyfer gwasanaethau/cyfleusterau ychwanegol.
- Datgan eich polisi canslo yn glir i westeion adeg archebu, h.y. ar y ffôn, ffacs, e-bost yn ogystal â thrwy'r wybodaeth argraffedig sy'n cael ei rhoi iddynt.
- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd adeg archebu ar gyfer llety a gwasanaethau eraill, a pheidio â'u codi.
- Hysbysu ymwelwyr adeg archebu ac ar ôl hynny am unrhyw newid, os yw'r llety'n cael ei gynnig mewn rhandy ar wahân neu mewn adeilad tebyg arall, a nodi lleoliad llety o'r fath ac unrhyw newidiadau o ran moethusrwydd a/neu amwynderau o gymharu â llety yn y prif eiddo.
- Hysbysu pob ymwelydd am fanylion y taliadau sy'n ddyledus a rhoi derbynneb iddynt ar gais, os oes angen.
- Ymdrin yn ddi-oed ac yn gwrtais â'r holl ymholiadau, ceisiadau, archebion a gohebiaeth gan ymwelwyr.
- Sicrhau bod gweithdrefnau i ymdrin â chwynion ar waith a bod unrhyw gwynion a dderbynnir yn cael eu hystyried yn ddi-oed ac yn gwrtais a bod yr ymwelydd yn cael ei hysbysu o'r canlyniad.
- Rhoi ystyriaeth i ofynion ymwelwyr anabl ac ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig, a chynnig darpariaeth addas lle y bo'n briodol.
- Darparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu drefniant cyfatebol a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio, diogelwch a'r rhwymedigaethau statudol eraill.
- Sicrhau bod cynrychiolydd Croeso Cymru yn cael mynediad rhesymol i'r eiddo, ar gais, i gadarnhau bod y busnes yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

4.0 Amodau Cymryd Rhan

Mae'n ofynnol i bob busnes sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru wneud y canlynol:

- Bodloni neu ragori ar ofynion mynediad sylfaenol Croeso Cymru o ran Cyfleusterau/ Gwasanaethau ac ansawdd er mwyn cael ei raddio yn y sector llety perthnasol.
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Cael ei asesu, ac os bydd cwynion gan gynrychiolydd awdurdodedig Croeso Cymru.
- Talu ffi flynyddol i fod yn rhan o'r cynllun.
- Darparu datganiad hygyrchedd.

5.0 Newid Perchnogaeth

Pan werthir busnes, ni ellir trosglwyddo'r radd gyfredol i'r perchennog newydd. Rhaid i'r perchennog newydd wneud cais i fod yn rhan o gynllun graddio Sêr Croeso Cymru.

6.0 Arwyddion

Os bydd busnes yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yng nghynllun graddio Croeso Cymru, am ba reswm bynnag, rhaid tynnu'r holl arwyddion arddangos a deunyddiau argraffedig perthnasol yn syth.

Rhaid arddangos logo perthnasol Croeso Cymru a disgrifiad swyddogol Croeso Cymru wrth ddefnyddio unrhyw raddau Sêr.

Rhaid i bob busnes gymryd rhan yng nghynllun arolygu graddio Croeso Cymru er mwyn cael ei enw wedi'i gynnwys ar restrï mewn cyhoeddiadau Croeso Cymru, ar ei wefan, ac o fewn rhwydwaith y Canolfannau Croeso.

Os nad yw busnes yn cydymffurfio â'r amodau hyn, gellir ei wahardd rhag arddangos neu ddefnyddio cymeradwyaeth Croeso Cymru mewn unrhyw ffordd.

7.0 Beth i'w Wneud Os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddir

Os ydych yn teimlo bod gennych reswm dros anghytuno â'r radd Sêr a roddwyd i'ch eiddo, neu os ydych yn anghytuno â rhai agweddau penodol ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, dylech gysylltu â ni cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gael eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar **0845 0108020** neu anfon e-bost atom yn **quality.tourism@wales.gsi.gov.uk** a byddwn yn ceisio ateb eich pryderon.

Fel arall, gallwch ysgrifennu atom yn:

Yr Adran Sicrhau Ansawdd,
Croeso Cymru,
Llywodraeth Cymru,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
SY23 3UR.

Cyflwynir y wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn gwbl ddidwyll a gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau ei chywirdeb. Ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw wall neu gamddehongli. Mae pob atebolrwydd am golled, siom, esgeulustod neu ddifrod arall a achosir drwy ddibyniaeth ar y wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn drwy hyn yn cael ei ddiddymu.



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 7368 2
© Hawlfraint y Goron 2013
WG15022 / G/MH/4299 / 0113